



Cynllun Blynyddol Ofcom

2005/6

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2005

Cynnwys

Adran		Tudalen
1	Rhagair	3
2	Themâu ar gyfer 2005/6	8
3	Rhaglen waith ar gyfer 2005/6	22
4	Calendr o allbynnau cynlluniedig	64
<hr/>		
Atodiad A	Ymatebwyr i'r ymgynghoriad	70
Atodiad B	Enwau ymatebwyr	78

Adran 1

Rhagair

Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynllun blynyddol ar gyfer 2005/6 a'n fframwaith strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Ar ôl cyhoeddi ein cynllun drafft ym mis Ionawr, gwnaethom wrando ar ein rhanddeiliaid mewn digwyddiadau ledled y Deyrnas Unedig ac yn ystod ein gwaith bob dydd. Rydym wedi ystyried yn ofalus mwy na phum deg ymateb ysgrifenedig i'r cynllun drafft ac wedi ceisio barnau'r cyrff cyngori sy'n rhoi cyngor annibynnol ac arbenigol i Ofcom ar faterion sy'n amrywio o'r sbectwm radio i fuddiannau pobl hŷn a phobl anabl. Bu'n werthfawr iawn cael cyfraniad gan ystod mor eang o'n rhanddeiliaid a gobeithiwn barhau â'r ddeialog hon drwy gydol y flwyddyn i ddod.

Y llynedd, derbyniom yr her o integreiddio'r pum rheoleiddiwr y disodlodd Ofcom, sef ymagwedd at reoleiddio sy'n gyson â'r ymagwedd honno a gefnogwyd yn Adolygiad Hampton a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Y canlyniad yw bod gennym bellach 25% yn llai o bobl nag yr oedd gan ein rhagflaenwyr yn ogystal â chostau gweithredu is. Roedd ein cyllideb ar gyfer 2004/5, ar sail debyg-am-debyg, 5% yn llai na chyllidebau ein rhagflaenwyr gyda'i gilydd ac, ers hynny, rydym wedi lleihau ein costau ymhellach. Mae ein cyllideb 2005/6 5% yn llai na chyllideb 2004/5 ac anelwn at leihau ein costau 5% ymhellach yn ystod 2005/6. Yn fyr, byddwn yn parhau i fod yn rheoleiddiwr RPI-x.

Yn y flwyddyn sydd ar ddod, bydd ein ffocws pennaf ar weithredu'r gwaith a ddechreuwyd eisoes yn ein hadolygiadau strategol o delegyfathrebiadau, sbectwm a darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn hefyd yn parhau i leihau neu waredu rheoleiddio, trwy roi'r adolygiadau ar waith, ond hefyd trwy asesu'n ofalus reolau rheoleiddio presennol ac i ba raddau y mae eu hangen o hyd. Mae Ffigur F.1 yn rhoi enghreifftiau o lle'r ydym eisoes wedi lleihau rheoleiddio, ynghyd ag enghreifftiau o gryfhau rheoleiddio. Yn y flwyddyn sydd ar ddod, byddwn yn parhau i osod clwyd uchel cyn ychwanegu at reoleiddio a byddwn yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau effaith.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi amlygu nifer o feysydd croestorri y bydd angen i ni roi sylw iddynt:

- Yr angen i greu'r amgylchedd cywir ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd cyfathrebiadau, yn enwedig band eang. Mae hyn yn bwysig i ddefnyddwyr a dinasyddion unigol ac yn ehangach, ar gyfer cystadleugarwch economi'r DG.
- Pwysigrwyd y newid i deledu digidol wrth hyrwyddo dewis i wylwyr a rhyddhau sbectwm ychwanegol.
- Yr angen i sicrhau mynediad eang a fforddiadwy i wasanaethau ac offer cyfathrebiadau, ystyried buddiannau pob dinesydd a defnyddiwr, ble bynnag y maent yn byw a beth bynnag yw eu hamgylchiadau.
- Yr angen i ragweld ac ymateb i ddatblygiadau yng nghyflenwad cynnwys trwy'r rhyngwlad a llwyfannau newydd eraill, gan sicrhau bod buddiannau dinasyddion yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn ein penderfyniadau.

- Galw dinasyddion, defnyddwyr a busnesau bach am y wybodaeth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i allu gwneud dewisiadau mwy gwybodus ac i fanteisio'n llawn ar gystadleuaeth a dewis cynyddol ar draws y sector.

Bu'r ymateb cyffredinol gan randdeiliaid i'n cynllun arfaethedig yn adeiladol iawn. Croesawyd y fframwaith strategol tair blynedd ganddynt, y prif themâu a nodwyd ar gyfer 2005/6 a'n ffocws ar effaith y cynllun ar wahanol grwpiau o randdeiliaid. Gwnaethant gefnogi ein cynlluniau i greu hinsawdd sy'n annog cystadleuaeth ac arloesedd. Cafwyd hefyd gefnogaeth eang i'r gostyngiadau i gostau a wnaed gennym a'n bwriad i ostwng costau ymhellach yn 2005/6.

Cafwyd llawer o awgrymiadau defnyddiol a manwl ynghylch sut y gallem fireinio'r cynllun a rhoi ffocws cliriach mewn rhai meysydd allweddol. Bydd llawer o'r syniadau hyn yn cael eu bwydo i'n llifau gwaith manwl. Hefyd, mewn ymateb i'r argymhellion a gawsom, rydym wedi sefydlu pedwar prosiect newydd a fydd yn archwilio materion defnyddwyr, strategaeth rifo, mynediad i wasanaethau cyfathrebiadau a'n hymagwedd at sicrhau buddiannau dinasyddion. Disgrifir y prosiectau hyn yn fanylach yn adran 2, sy'n nodi ein fframwaith strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf, y themâu a fydd yn arwain ein gwaith yn 2005/6 a sut y caiff ein gweithgareddau eu hariannu.

Mae Adran 3 yn disgrifio'r rhaglen waith y byddwn yn ymgymryd â hi yn 2005/6. Mae yna fanylion o'r holl lifau gwaith cynlluniedig, gan gynnwys yr allbynnau disgwylidig a phwy i gysylltu ag ef am fwy o wybodaeth.

Yn adran 4, ceir calendr sy'n dangos yr allbynnau allweddol a gynlluniwyd ar gyfer pob chwarter, er gall fod rhai diwygiadau i'r amserlen yn ystod y flwyddyn gan fod angen i ni ymateb yn hyblyg i ddatblygiadau'r farchnad. Rydym yn cydnabod y gall y costau sydd ynghlwm wrth gysylltu ag Ofcom fod yn sylweddol a gobeithiwn y bydd manylion ein rhaglen waith yn y cyfnod hwn yn helpu rhanddeiliaid i gynllunio eu hymatebion i'n ymgynghoriadau yn effeithiol.

Ceir crynodeb o'r barnau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn atodiad A.

Edrychwn ymlaen at barhau deialog adeiladol gyda'n holl randdeiliaid yn y flwyddyn sydd ar ddod a gobeithiwn ein bod wedi darparu darlun clir a chydlynol o'n gweithgareddau cynlluniedig.

David Currie (Cadeirydd) a Stephen Carter (Prif Weithredwr)

Ffigur F.1 – Meysydd lle mae rheoleiddio wedi'i leihau neu ei gryfhau

Lleihau rheoleiddio – gweithrediadau a chynigion (blwyddyn ariannol 2004/5)

Darlledu

Adolygiad o Ddarlledu Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB)

Mae tystiolaeth yn awgrymu na fydd system analog presennol PSB yn goroesi'r symudiad i'r oes ddigidol. Er mwyn adeiladu model digidol newydd o PSB, lleihawyd rhai gofynion ar ddarlledwyr, y mae ymchwil wedi dangos eu bod yn gostus i'w darparu ac yn cael eu gwerthfawrogi llai gan wylwyr.

Cod Darlledu

Llacio rheolau nawdd i ddarparu gwell hyblygrwydd a rhyddid ar gyfer partneriaethau masnachol ond sicrhau egwyddorion allweddol tryloywder ac annibyniaeth olygyddol. Cyfunwyd a moderneiddiwyd y codau radio a theledu ar wahân blaenorol a'u halinio ag ymagwedd, sy'n ymyrryd llai, at ddarpariaethau sy'n effeithio ar y rheiny dros 18 oed.*

Cydreoleiddio Hysbysebu Darlledu

Wedi rhoi contract i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ar gyfer rheoleiddio bob dydd cynnwys hysbysebu darlledu i greu 'siop un stop' ar gyfer cwynion defnyddwyr sy'n gysylltiedig â safonau hysbysebu.

Proses Trwyddedu Radio

Wedi symleiddio a chyflymu'r broses i'r rheiny sy'n gwneud cais am drwyddedau radio masnachol FM newydd.

Adolygiad Radio

Wrthi'n ymgynghori ar statws rheoleiddio ar y darlledwyr radio masnachol yn enwedig mewn perthynas â rheolau llai cyfarwyddol ar leoliad stiwdio, awtomataeth, rhwydweithio, a chyflwyno newyddion lleol.*

Sbectrwm

Masnachu a Rhyddfrydoli Sbectrwm

Symud tuag at ymagwedd a arweinir gan y farchnad at reoli sbectrwm, lle bydd defnyddwyr yn gallu masnachu trwyddedau mewn marchnad agored gyda phrisiau'n cael eu pennu gan rymoedd y farchnad fel a nodir yn ein Hadolygiad Fframwaith Sbectrwm (y mae ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd). Cyflwynwyd masnachu sbectrwm ar gyfer rhai dosbarthiadau trwydded ym mis Rhagfyr 2004 ac mae yna waith parhaus i ganiatáu deiliaid trwydded i fasnachu sbectrwm yn ehangach ac i newid y defnydd a wnant o hawliau sbectrwm (a elwir yn rhyddfrydoli).

Trwyddedu Sbectrwm ar gyfer System Dosbarthu Sain mewn Digwyddiadau Arbennig

Cynigion i agor sbectrwm gwneud rhaglenni i ddefnydd ehangach mewn ymateb i alw gan weithredwyr i allu cyflwyno gwasanaethau dosbarthu sain mewn digwyddiadau chwaraeon a chynadleddau. Dechreuodd y drefn drwyddedu ym mis Mehefin 2004 ar gyfer cyfnod arbrofol o 14 mis.

Gwasanaethau Dosbarthu Sain Gymunedol (CADS)

Rhoi rhyddfrydoli ar brawf yng Ngogledd Iwerddon a Gorllewin Swydd Efrog, gan ganiatáu i sefydliadau crefyddol a chymunedol lleol rannu Band Dinasyddion (CB) y DG gyda defnyddwyr radio CB.

Cyd-drefniant Rhyngwladol ar gyfer Rhwydweithiau Lloeren

Cynigion i lacio'r angen i gynnal canolfan rheoli lloeren yn y DG ar gyfer y systemau hynny sydd ar ffeil yn yr ITU, gan felly wneud gofynion ar weithredwyr lloeren yn llai beichus.*

Trwyddedu Radio Llongau

Cynlluniau i wneud trwyddedau radio llongau yn ddilys ar gyfer oes gyfan y llong, ac i sicrhau bod y trwyddedau hynny ar gael ar sail hunanwasanaeth ac yn rhad ac am ddim.*

Telegyfathrebiadau

Costau Rheoli Rhwydwaith – Gwasanaethau Trawsgludo Rhyng-Dandem a Chludo Rhyng-Dandem

Yn dilyn cystadleuaeth gynyddol yn y farchnad ar gyfer y gwasanaethau hyn, mae Ofcom yn ymgynghori ar gynigion i waredu rheolau costau ar BT ar gyfer y gwasanaethau rhwydwaith band cul cyfanwerth, sy'n cludo traffig galwadau rhwng 'cyfnewidfeydd tandem' BT ar gyfer cystadleuwyr i BT.*

Ffonau Gwifredig

Wedi gwaredu rheolau pris ffurfiol ar bris rhentu ffonau gwifredig, yn gyfnewid am fesurau amddiffyn defnyddwyr ehangach ond anffurfiol, ar ffurf ymrwymiadau ysgrifenedig gan BT a Kingston.

Troslais Band Eang

Lleihau'r baich rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chreu a chyflwyno gwasanaethau llais newydd tra'n sicrhau bod defnyddwyr yn cael y wybodaeth a'r amddiffyniad priodol.

Rheoli Cost Hygludedd Rhifau

Wedi gwaredu rheoleiddio gydag effaith gul iawn o blaid dibynnu ar ymrwymiadau anffurfiol gan BT. Ystyriwyd bod rheoleiddio ex ante yn anghymesur yn yr amgylchiadau cyfredol.

Amod 43

Wedi gwaredu rheoleiddio o ystod eang o wasanaethau adwerthu BT, gan ddibynnu yn y dyfodol ar gyfraith gystadleuaeth. Mae rheoleiddio ex ante yn canolbwyntio bellach ar farchnadoedd allweddol lle mae ymyrraeth o'r fath yn briodol.

Peidio Trawsgludo Gwasanaeth Galwadau Argyfwng Cyhoeddus

Wedi gwaredu meicro-reoleiddio presennol o blaid dibynnu ar ymrwymiadau anffurfiol gan BT, wedi'u tanategu gan droi at ymyrraeth strwythurol mewn achos annhebygol o gamdriniaeth.

Traws Sector

Cwynion Cystadleuaeth

Ystyrir llai o achosion ar gyfer archwiliad llawn o ganlyniad i ganllawiau newydd ar ymagwedd Ofcom at ddelio â chwynion ac anghydfodau (a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2004). Mae hyn yn caniatáu Ofcom i dargedu adnoddau at y materion cystadleuaeth mwyaf difrifol, yn enwedig y rheiny gydag arwyddocâd ehangach ar gyfer sector cyfathrebiadau y DG.

Cryfhau rheoleiddio – gweithrediadau a chynigion (blwyddyn ariannol 2004/5)

Darlledu

Arweiniad Lleoldeb Radio

Wedi llunio arweiniad ar gyflwyno deunydd lleol a chynhyrchu lleol ar gyfer darlledwyr radio masnachol.

Darlledu Pleidiau Gwleidyddol a Refferendwm

Fel gofyniad newydd a nodwyd yn y Ddeddf Gyfathrebiadau, mae Ofcom wedi gosod gofyniad gofynnol trwy gynnig i bob plaid bwysig un darllediad mewn refferendwm.

Diffiniadau Cynhyrchu Rhanbarthol a Rhaglenni Rhanbarthol

Wedi cryfhau'r cwota cynhyrchu y tu allan i Lundain ar gyfer ITV1, newid diffiniad rhaglenni rhanbarthol a gorfodi darpariaeth o gydymffurfiaeth rhannu data.

Cod ar Wasanaethau Mynediad Teledu

Wedi estyn y gofynion i ddarparu isdeitlo, arwyddo a chlyw-ddisgrifiad i sianeli teledu lloeren a chebl mwy, gan roi goblygiadau statudol yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ar waith.

Cod ar Ganllawiau Rhaglenni Electronig (EPGs)

Er mwyn rhoi goblygiadau statudol yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ar waith, mae Ofcom yn gofyn i ddarparwyr EPG roi gwybodaeth am raglenni gydag isdeitlo, arwyddo neu glyw-ddisgrifiad, ac i ddelio mewn modd teg, rhesymol a di-wahaniaethol â sianeli a restrir ar EPGs.

Codau Ymarfer

Codau ar gyfer comisiynu cynhyrchiadau annibynnol sy'n gosod fframwaith ar gyfer telerau masnachu teg rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r cynhyrchwyr annibynnol.

Trwyddedu a Rheoleiddio Radio Cymunedol a'r Gronfa Radio Cymunedol

Wedi'i anelu at gyflwyno enillion cymdeithasol trwy roi'r gallu i gymunedau sefydlu gorsafoedd radio nid-am-elw i gyflwyno rhaglenni lleol. Mae Ofcom hefyd wedi ymgynghori ynghylch darparu cronfa i helpu cychwyn y gorsafoedd hyn.

Rheolau Alcohol Newydd ar gyfer Hysbysebu Teledu

Wedi cryfhau rheolau hysbysebu alcohol i amddiffyn pobl dan 18 oed.

Telegyfathrebiadau

British Telecommunications i Gyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Annog amgylchedd mwy cystadleuol trwy ofyn i BT gyhoeddi dangosyddion perfformiad sy'n ymdrin â chynnyrch Rhentu Llinell Gyfanwerth (WLR) BT, Cylchedau rhyng-gysylltiad, Tarddiad Galwadau Mynediad Rhyngwryd Cyfradd Unffurf (FRIACO) a Tharddiad a Thrawsgludiad Band Eang Cyfanwerth.

Gwasanaethau Cyfradd Breimiwm

Argymhellodd adroddiad Ofcom i'r Adran Masnach a Diwydiant newidiadau i god ymarfer ICSTIS i gryfhau amddiffyniad defnyddwyr mewn ymateb i achosion niwed i ddefnyddwyr.*

Anfantais Galwadau Lleol

Mae Cyn-ddethol Trosglwyddydd (CPS) yn caniatáu i ddefnyddwyr pen ddewis darparwr amgen i drosglwyddo eu galwadau heb rhagddodiad neu offer arbennig. Mae'r datganiad hwn yn gofyn i BT gynnig 'Opsiw'n Galwadau Lleol' CPS i rai weithredwyr CPS perthnasol fel eu bod mewn gwell sefyllfa i gystadlu am alwadau lleol.

Terfynu Galwadau Symudol

Mae Ofcom wedi gorfodi gostyngiadau pris sylweddol ar y costau i weithredwyr ar gyfer terfynu galwadau ar rwydweithiau symudol 2G Vodafone, O2, Orange a T-Mobile.

Dadfwndelu Dolen Leol (LLU) a Band Eang Cyfanwerth

Gwnaeth reolau costau Ofcom ar gyfer gwasanaethau LLU ostwng prisiau hyd at 70% i weithredwyr sydd eisiau cysylltu â'r defnyddiwr trwy dolenni leol copr BT i annog dechreuwyr newydd yn y farchnad. Wedi cyflwyno dyfarnwr telegyfathrebiadau newydd i sicrhau y gweithredir LLU yn effeithiol.

Camwerthu Telegyfathrebiadau Llinell Sefydlog

Bydd canllawiau gwirfoddol presennol ar werthu a marchnata yn dod yn orfodol, gan gryfhau pwerau Ofcom i weithredu yn erbyn cwmnïau y canfuir eu bod yn ymgymryd ag arferion gwerthu a marchnata anghyfrifol.

* Cynigion y mae Ofcom yn ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd.

Adran 2

Themâu ar gyfer 2005/6


2.1 Yn yr adran hon, nodwn ein fframwaith strategol tair blynedd, a gadarnhawyd ar ôl yr ymgynghoriad. Wedyn, disgrifiwn y saith thema a fydd yn arwain ein gweithgareddau eleni a'r prif lifau gwaith sydd ym mhob un ohonynt.¹ Wrth wneud hynny, esboniwn sut y mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dylanwadu ar ein rhaglen waith. Ceir mwy o fanylion am y materion a gododd yr ymatebion ac ymateb Ofcom yn Atodiad A.

2.2 Mae'r cynllun hwn yn edrych ymlaen dros y tair blynedd nesaf, tra bydd ein Hadroddiad Blynyddol, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni, yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'n gweithgareddau yn 2004/05. Ar ddiwedd yr adran hon, ceir darn byr ar sut y caiff ein gweithgareddau eu hariannu. Am fwy o wybodaeth am gyllid Ofcom, gweler y Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl a Thabl Tariffau Ofcom 2005/06.

Ymagwedd strategol dair blynedd

2.3 Yn ein cynllun drafft, nodwn fframwaith a fydd yn arwain ein gweithgareddau dros y tair blynedd nesaf. Cafodd hwn gefnogaeth eang a chaiff ei atgynhyrchu yn ffigur 2.1. Yn y flwyddyn sydd ar ddod, bydd ein ffocws ar gyflwyno, gyda phwyslais penodol ar roi'r adolygiadau strategol ar waith a gynhaliwyd yn ein blwyddyn gyntaf o weithredu. Bydd 2006/7 yn ymwneud â chynnal cynnydd, gyda tharged o sefydlu meincnod ar gyfer rheoleiddio 'arfer gorau'. Yn 2007/8 byddwn yn gwerthuso effaith ein tair blynedd gyntaf o weithredu cyn sefydlu ail-ffocws ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Ffigur 2.1 – Fframwaith strategol tair blynedd



¹ Rydym wedi cadw'r saith categori gwaith a ddisgrifiwyd yn ein cynllun drafft ond, yng ngoleuni'r adborth a gafwyd, rydym wedi dewis eu galw'n themâu yn hytrach na'n flaenoriaethau.

- 2.4 Wrth ddatblygu ein hymagwedd tair blynedd, ein man cychwyn oedd y fframwaith statudol a luniwyd yn bennaf gan Ddeddf Gyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf).² Prif ddyletswydd Ofcom yw datblygu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, lle bo'n briodol trwy annog cystadleuaeth. Yn ôl y Ddeddf, mae'r hyn y mae gofyn i ni ei wneud i fodloni'r dyletswydd hwn yn syrthio i chwech phrif faes, sy'n amrywio o sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio i ddarparu amddiffyniad digonol i gynulleidfaedd rhag deunydd annymunol a niweidiol.
- 2.5 Er mwyn darparu ffordd gyson o ddehongli gofynion y Ddeddf, datblygwyd cyfres o egwyddorion rheoleiddio gennym. Nodir yr egwyddorion hyn yn ffigur 2.2 ac fe'u cynlluniwyd i sicrhau ymagwedd gydlynol a rhagweladwy i reoleiddio. O bwysigrwydd allweddol yw'r ffaith y byddwn yn gweithredu gyda bias yn erbyn ymyrraeth ac os oes modd gwneud achos ar gyfer ymyrraeth, byddwn yn dewis y ffordd sy'n ymyrryd leiaf o gyflawni ein hamcan polisi.

Ffigur 2.2 – Egwyddorion rheoleiddio Ofcom

Pryd y byddwn yn rheoleiddio	Bydd Ofcom yn gweithredu gyda bias yn erbyn ymyrraeth , ond gyda pharodrwydd i ymyrryd yn gadarn, yn gyflym ac yn effeithiol lle bo'n ofynnol .
	Bydd Ofcom yn ymyrryd lle ceir dyletswydd statudol benodol i weithio tuag at nod polisi cyhoeddus na all marchnadoedd ei gyflawni ar eu pennau eu hunain .
Sut y byddwn yn rheoleiddio	Bydd Ofcom bob amser yn ceisio'r mecanweithiau rheoleiddio sy'n ymyrryd leiaf i gyflawni ei amcanion polisi.
	Bydd Ofcom yn ymdrechu i sicrhau y bydd ei ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth a chanlyniad.
	Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a adolygir yn gyhoeddus ac a fynegir yn glir , gydag amcanion polisi yn cael eu datgan.
Sut yr ydym yn cefnogi rheoleiddio	Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson a byddwn yn anelu at barhau ar flaen dealltwriaeth dechnolegol;
	Bydd Ofcom yn ymgyngori'n eang gyda phob rhanddeiliad perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn gorfodi rheoleiddio ar farchnad.

- 2.6 Credwn fod y buddiannau i ddinasyddion a defnyddwyr ar eu mwyaf o bosibl lle bo marchnadoedd yn agored, lle gall dechreuwyr gystadlu yn erbyn deiliaid presennol, lle anogir buddsoddiad a lle mae arloesedd yn ffynnu. Bydd hyn yn golygu ymdrechu'n barhaus i hyrwyddo marchnadoedd cyfathrebiadau sy'n ddynamig, yn agored ac yn hyblyg.
- 2.7 Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, na fydd marchnadoedd yn datrys pob problem yn llawn ac y bydd angen gweithredu i amddiffyn buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Bydd modd dadlau a fydd angen ymyrraeth o'r fath ac os felly, ar ba ffurf. Yn y flwyddyn sy'n dod byddwn yn archwilio'r ffordd orau i nodi a sicrhau

² Nid yw'r cynllun blynyddol ar gyfer 2005/6 yn cyfeirio'n benodol at sut y byddwn yn bodloni ein goblygiadau statudol penodol, ond gwneir hyn yn glir yn y dogfennau a gyhoeddwn yn ystod y flwyddyn.

buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y sectorau rydym yn gyfrifol am eu rheoleiddio. Un flaenoriaeth fydd sicrhau bod gan unigolion fynediad i'r wybodaeth a'r offer y mae arnynt eu hangen i allu ymarfer mwy o gyfrifoldeb a dewis mewn perthynas â'r cynnwys y maent yn ei wyllo ac yn gwranddo arno a'r gwasanaethau cyfathrebiadau a ddefnyddiant.

2.8 Un nodwedd bwysig ar ein hymagwedd reoleiddio fydd gwerthusiad hollbwysig o'n heffeithiolrwydd cyn yr adolygiad mawr arfaethedig yn 2007/8. Yn 2005/6, felly, bwriadwn ddarparu mwy o wybodaeth am y fframwaith gwerthuso y bwriadwn ei ddefnyddio. Bydd hwn yn ymdrin â phedwar maes:

- Amgyffrediadau rhanddeiliaid – byddwn yn ceisio adborth gan ein rhanddeiliaid, er enghraifft, ar sut yr ydym wedi ymgynghori ac ansawdd ein penderfyniadau.
- Datblygiadau'r farchnad – bydd hyn yn cynnwys olrhain datblygiadau i asesu ein heffaith ar y farchnadle.
- Cyflawni ein hamcanion – byddwn yn gwerthuso pa mor dda yr ydym wedi cymhwyso ein hegwyddorion rheoleiddio ac a ydym wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd gennym.
- Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mewnol – byddwn yn monitro lefelau'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd ac i fusnesau bach.

Themâu ar gyfer 2005/6

2.9 Trefnir ein cynllun gwaith 2005/6 o amgylch saith thema. Nodir y rhain yn ffigur 2.3.

Ffigur 2.3 – Themâu ar gyfer 2005/6

Rhoi'r adolygiadau strategol ar waith
Ehangu marchnadoedd ac annog arloesedd
Rhoi sylw i faterion pwysig dinasyddion a defnyddwyr
Ymrwymiad rhyngwladol
Cymryd cyfleoedd i leihau rheoleiddio
Gweithio'n effeithiol
Deall datblygiadau'r dyfodol

2.10 Cafwyd cefnogaeth eang yn yr ymgynghoriad am y prif themâu hyn, er bod ymatebwyr hefyd yn awgrymu y dylid cynnwys nifer o faterion ychwanegol yn y cynllun. Rydym wedi rhoi sylw i'r rhain gyda'r llifau gwaith newydd neu ddiwygiedig canlynol, y cyfeirir atynt yn fanylach dan y thema berthnasol:

- prosiect **strategaeth defnyddwyr** newydd i dynnu ein gwaith presennol a'n gwaith cynlluniedig at ei gilydd ar gyfer defnyddwyr ac i ddiffinio a datblygu rôl Ofcom wrth gefnogi ac amddiffyn defnyddwyr;
- prosiect **mynediad** a fydd yn cymryd y gwaith a gwblhawyd yn yr adolygiadau strategol a phrosiectau eraill, fel yr archwiliad cyfathrebiadau cynlluniedig yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau, a thuag at ddiwedd y flwyddyn yn nodi'r materion a'r heriau i fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau mynediad eang i wasanaethau cyfathrebiadau modern ymhlith holl ranbarthau a chymunedau'r DG;

- gwaith pellach ar **fuddiannau dinasyddion**, i helpu nodi a mynegi'n gliriach sut y dylid ymgorffori buddiannau dinasyddion ym mhroses benderfynu Ofcom mewn modd tryloyw a systematig;
- adolygiad strategol o **rifo ffôn** i dynnu ynghyd ystod o lifau gwaith ar faterion rhifo ac i sicrhau bod gennym fframwaith cyffredinol cydlynol ar gyfer gwneud penderfyniadau rhifo hollbwysig dros y blynyddoedd nesaf.

2.11 I ddarparu ar gyfer y newidiadau uchod, byddwn yn rheoli sawl un o'r llifau gwaith sy'n weddill dros amserlen ychydig yn hirach a bydd rhai yn parhau i 2006/7 a thu hwnt.

Rhoi'r adolygiadau strategol ar waith (Thema 1)

2.12 Ein blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2005/6 fydd cwblhau a gweithredu'r adolygiadau strategol o delegyfathrebiadau, darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sbectrwm a radio a ddechreuwyd gennym yn ein blwyddyn gyntaf o weithredu. Nododd y broses ymgynghori gefnogaeth eang am y gwaith hwn, er mynegwyd pryder gan rai y gallwn fod yn symud ymlaen i weithredu cyn cwblhau'r adolygiadau. Rydym wedi adolygu ein hamserlen arfaethedig i sicrhau mai nad dyma'r achos.

Telegyfathrebiadau

2.13 Mae'n hadolygiad strategol o telegyfathrebiadau yn paratoi'r sail ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd a fydd yn hwyluso'r newid o analog i ddigidol ac o rwydweithiau llinell sefydlog cylched swits i rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf sy'n seiliedig ar Brococol y Rhynggrwyd.

2.14 Bydd ein rhaglen waith gychwynnol yn 2005/6 yn cynnwys ystyried yr ymatebion i gam 2 a byddwn yn dod â'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi ein datganiad cam 3 yn yr ail chwarter. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i wneud gwaith i baratoi ar gyfer y camau a fydd yn dilyn, gyda'r prif opsiynau o naill ai gwneud atgyfeiriad i'r Comisiwn Cystadleuaeth dan y Ddeddf Fenter neu ddarparu i gystadleuwyr BT wir gydraddoldeb o ran mynediad i'w rwydwaith.

2.15 Bydd casgliadau'r adolygiad hefyd yn llywio ein gwaith parhaus mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- sicrhau datblygu cynhyrchion rhentu llinell gyfanwerth a chyn-ddethol trosglwyddydd sy'n addas at ddiben i gynyddu cystadleuaeth mewn gwasanaethau llais;
- rhoi rheolau pris diwygiedig ar waith ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith BT;
- hyrwyddo cystadleuaeth rhwydwaith trwy waith pellach ar Ddadfwndelu Dolen Leol (LLU), gan gynnwys cymorth i waith y Dyfarnwr Telegyfathrebiadau wrth wella prosesau LLU a datrys anghydfodau, ac ar gynnyrch cyfanwerth DataStream BT;
- hwyluso'r symudiad i rwydwaith 21^{ain} Ganrif BT;
- hwyluso datblygiad ein gwasanaethau llais newydd, fel troslais band eang; a
- datblygu fframwaith ar gyfer dadansoddi marchnadoedd ar lefel is-genedlaethol a fyddai'n galluogi ystyried gwahaniaethau daearyddol.

Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

2.16 Yng ngham 3 ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB), cyhoeddwyd ein safbwyntiau terfynol ar sut i gynnal a chryfhau teledu

gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei Bapur Gwyrdd ar adolygiad Siarter y BBC.

- 2.17 Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn rhoi'r argymhellion hynny ar waith sy'n syrthio o fewn ein cylch gorchwyl, sef y rheiny gydag effaith ar y Gwledydd a'r Rhanbarthau. A thrwy dynnu ar gasgliadau ehangach ein hadroddiad, byddwn yn bwydo i adolygiad y Llywodraeth o Siarter y BBC.
- 2.18 Bydd meysydd allweddol o'n gwaith gweithredu yn cynnwys:
- datganiad ar y cynigion a wnaed yn ein hadroddiad cam 3 am y Gwledydd;
 - gwaith ar y rôl a'r rhagolygon ar gyfer teledu lleol, yn enwedig trwy'r llwyfan digidol daearol;
 - gosod cwotâu allbwn a chynhyrchu Haen 2 cynaliadwy ac asesu cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn;
 - parhau i drafod gyda Channel 4;
 - gwaith pellach ar ddatblygu Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus;
 - gweithio gydag ITV, Channel 4 a Five i gyflwyno hunanasesiad effeithiol o gydymffurfiaeth ag ansawdd Haen 3 o ofynion cynnwys; a
 - datblygu gweithdrefnau ar gyfer asesu ac olrhain cyflwyno PSB.

Fframwaith sbectrum

- 2.19 Rydym bellach yn ystyried yr ymatebion i'r adolygiad fframwaith sbectrum, lle nodwyd ein strategaeth ar gyfer sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r sbectrum radio trwy ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad gan gynnwys:
- galluogi'r farchnad i benderfynu'r defnydd gorau ar gyfer dyraniadau sbectrum newydd;
 - galluogi deiliaid trwydded i fasnachu sbectrum mewn marchnad agored ac i newid y defnydd a wnânt o hawliau sbectrum; a
 - chynyddu maint y sbectrum trwydded-eithriedig i alluogi busnesau i ddatblygu technolegau a gwasanaethau newydd ac i ddod â hwy i'r farchnad heb angen am drwydded.
- 2.20 Gan ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad, bwriadwn gynnal ymgynghoriadau pellach yn nhrydydd chwarter y flwyddyn hon. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar:
- hawliau eiddo technoleg niwtral;
 - rôl Ofcom mewn cysoni sbectrum;
 - cynyddu pŵer mewn bandiau anhrwyddedig mewn ardaloedd gwledig.
- 2.21 Bydd gwaith penodol hefyd i ryddhau mwy o sbectrum a hyrwyddo ei ddefnydd mwy effeithlon. Disgrifir y meysydd gwaith hyn yn adran ganlynol y cynllun - "Ehangu marchnadoedd a chynyddu arloesedd" - a byddwn yn sicrhau bod y gweithgarwch hwn wedi'i alinio â'r cyfeiriad strategol tymor hwy sy'n dod i'r amlwg a amlinellir yn yr adolygiad fframwaith sbectrum.

Radio

- 2.22 Cynigiodd ein hadolygiad o radio, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, gyfres o nodau strategol ar gyfer rheoleiddio mewn radio yn canolbwyntio ar DAB ac ymagweddau newydd at reoleiddio radio lleol a radio cymunedol.
- 2.23 Byddwn yn ymgynghori ar gam 2 yr adolygiad radio yn chwarter cyntaf y flwyddyn hon. Yn y ddogfen hon, byddwn yn amlinellu ein barnau ar y ffordd orau i gyflawni'r dibenion cyhoeddus y nodir eu bod yn bwysig i radio ac yn

cynnig cynllun ar gyfer trwyddedu radio digidol pellach. Byddwn hefyd yn rhoi system gyd-reoleiddio ar waith ar gyfer monitro cymhwysiad y rheoliadau lleoldeb analog.

Ehangu marchnadoedd ac annog arloesedd (Thema 2)

2.25 Mae ein gwaith yn y maes hwn yn rhannu yn dri phrif faes a reoleiddir gan Ofcom - sef darlledu, telegyfathrebiadau a sbectrwm - a disgrifir manylion y llifau gwaith allweddol isod. Un newid allweddol sy'n dilyn yr ymgynghoriad yw ein bod wedi penderfynu cynnal adolygiad strategol newydd o'n gwaith ar rifo.

Darlledu

2.25 Bydd yna nifer o lifau gwaith a gynllunnir i hyrwyddo cystadleuaeth gynyddol mewn darlledu, gan gynnwys:

- adolygu codau a chanllawiau cystadleuaeth presennol;
- cyflwyno trefniadau rhwydweithio newydd ar gyfer ITV; a
- datblygu fframwaith tryloyw, cadarn ar gyfer asesu costau darlledu.

2.26 Yn gyfochrog â'r gwaith hwn, byddwn yn adolygu datblygiadau yn y ffynonellau cyllid ar gyfer darlledwyr masnachol, gan gynnwys hysbysebu, nawdd a lleoli cynnyrch. Daw hyn cyn adolygiad o ateb unioni Adnewyddu Hawliau Contract (CRR) a'r farchnad hysbysebu teledu darlledu. Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mhedwerydd chwarter 2005/6 ac yn cael ei gwblhau yn 2006/7, a disgwyliwn gyrraedd penderfyniad terfynol ar y rheolau sy'n llywodraethu maint a dosbarthiad hysbysebu wedyn.

Telegyfathrebiadau

2.27 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft, byddwn yn cynnal adolygiad strategol newydd o'n gwaith ar rifo. Yr amcan fydd datblygu ymagwedd strategol gydlynol a fydd yn llywio ein gwaith yn y meysydd hyn yn y tymor hwy. Yn y cyfamser, bydd gwaith ar rifo a Gwasanaethau Trosi Rhif (NTS) yn parhau, gyda nifer o fentrau penodol ar y gweill ar gyfer 2005/6. Er enghraifft, byddwn yn cyflwyno cronfa ddata newydd i alluogi dyrannu rhifau yn fwy effeithlon.

2.28 Bydd mentrau eraill i hyrwyddo cystadleuaeth mewn telegyfathrebiadau yn cynnwys:

- adolygiad o derfynu galwadau ffonau symudol, a fydd yn effeithio ar y gost o ffonio ffonau symudol;
- adolygiad o'r farchnad crwydro rhyngwladol gyfanwerth;
- adolygu datganiadau ariannol rheoleiddio BT ar gyfer 2004/5 a pharhau â gwaith i ddatblygu trefn adrodd ariannol sy'n fwy addas i'r diben;
- monitro darpariaeth y gwasanaethau ymholiadau cyfeiriadur trwy siopa dirgel ac ymchwil i'r farchnad a gynhelir gyda'r Pwyllgor Annibynnol ar gyfer Goruchwyllo Safonau Gwasanaethau Gwybodaeth Ffôn (ICSTIS), a hwyluso darpariaeth gwybodaeth defnyddwyr effeithiol, a chost ac ansawdd y gwasanaethau hyn; ac
- archwilio honiadau o ymddygiad gwrth-gystadleuol gan ddarparwyr cyfathrebiadau a datrys anghydfodau.

Sbectrwm

2.29 Yn ystod 2005/6 byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu ein hymagwedd at ddyfarnu, masnachu a rhyddfrydoli sbectrwm:

- bydd yna gyfres o ddyfarniadau sbectrwm, gan gynnwys arwerthu rhai bandiau;
 - estynnir masnachu sbectrwm i ddsbarthiadau newydd o drwyddedau, sef radio busnes preifat ardal eang a radio symudol mynediad cyhoeddus digidol; a
 - byddwn yn datblygu ymagwedd fwy cydlynol at reoli sbectrwm a ddynodir ar gyfer gwasanaethau symudol a band eang.
- 2.30 Byddwn yn parhau i weithio tuag at y newid i deledu digidol rhwng 2007 a 2012 ac yn chwarter cyntaf 2005/6 byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar yr opsiwn priodol ar gyfer gwneud y gorau o gwmpas daearyddol darlledu daearol digidol ar ôl y newid i ddigidol. Byddwn hefyd yn ymgynghori yn ystod y flwyddyn ar yr opsiynau technegol a masnachol ar gyfer defnyddio'r sbectrwm analog a ryddheir erbyn y newid i ddigidol.
- 2.31 Bydd gwaith ychwanegol i hyrwyddo defnydd mwy effeithlon o sbectrwm yn cynnwys:
- ymgynghori ar gymhwyso prisio sbectrwm i sbectrwm darlledu;
 - ymgynghori ar opsiynau ar gyfer cyflwyno Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ar gyfer gwasanaethau lloeren;
 - cefnogi'r archwiliad annibynnol o ddaliadau sbectrwm pwysig sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Martin Cave.
- 2.32 Yn ogystal, byddwn yn parhau i gyhoeddi trwyddedau nad ydynt yn rhai dewisol. Bob wythnos disgwylw'n gyhoeddi 150 o drwyddedau newydd a dynodi 200 o drwyddedau presennol.
- 2.33 Un dasg bwysig a sylweddol fydd cadw sbectrwm yn rhydd rhag ymyrraeth trwy orfodaeth wedi'i thargedu, gan wneud defnydd effeithiol o fonitro o bellter a systemau monitro dioruchwyliaeth. Bydd ein Gorsaf Fonitro Baldock yn parhau i ddarparu gwasanaeth di-baid i roi sylw i achosion ymyrraeth cenedlaethol a rhyngwladol.

Rhoi sylw i faterion pwysig dinasyddion a defnyddwyr (Thema 3)

- 2.34 Mae rhoi sylw i faterion pwysig dinasyddion a defnyddwyr yn elfen allweddol arall o waith Ofcom. Mae yna ddau brif newid yn y maes hwn yn dilyn yr ymgynghoriad. Y cyntaf yw y bwriadwn gymryd drosolwg o'n holl waith wedi'i anelu at hyrwyddo mynediad ehangach i wasanaethau cyfathrebiadau. Yr ail yw y byddwn yn adolygu'r elfennau o'n gwaith sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr cyn mynegi ein strategaeth defnyddwyr yn gliriach.
- 2.35 Yn gyfochrog â gwaith Ofcom ei hun, byddwn yn rhoi cefnogaeth i ac yn gweithio gyda'r Panel Defnyddwyr, sy'n gorff annibynnol sy'n cynghori ar fuddiant y defnyddiwr yn y marchnadoedd a reoleiddir gan Ofcom. Mae'r Panel wedi cynghori y bydd yn archwilio sut yr adlewyrchir buddiant y defnyddiwr wrth i Ofcom lunio polisiau dros y flwyddyn sydd ar ddod.

Hyrwyddo mynediad eang

- 2.36 Byddwn yn gwneud gwaith i gefnogi mynediad eang i wasanaethau cyfathrebiadau. Bydd hyn yn cwmpasu'r meysydd canlynol:
- gwaith ar wasanaeth cyffredinol i sicrhau bod gwasanaethau telefoni sylfaenol a mynediad rhyngwryd ar gael i bawb ar gais rhesymol ac am bris fforddiadwy gan fwydo i adolygiad yr UE o'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol;

- archwiliad o argaeledd gwasanaethau, nifer y defnyddwyr sy'n manteisio arnynt a dewis yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau;
- ymchwil ar y materion mynediad sy'n wynebu pobl hŷn a phobl anabl a'r rheiny ar incwm is;
- adolygiad o'r cod ar ganllawiau rhaglen electronig (EPGs) i sicrhau eu bod yn ddigon hygyrch ac yn rhoi pwysigrwydd priodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus;
- adolygiad o'r cod mynediad teledu i sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau mynediad gan ddarlledwyr, i ddarparu arweiniad ar safonau ac i osod targed clyw-ddisgrifio; a
- gweithio gyda'r sector preifat a'r sector cyhoeddus i hyrwyddo offer a gwasanaethau hygyrch i ddefnyddwyr.

2.37 Tuag at ddiwedd 2005/6 byddwn yn cymryd trosolwg o'r mentrau amrywiol y mae Ofcom yn eu cymryd i hyrwyddo gwell mynediad i wasanaethau ac i asesu pa waith pellach sydd ei angen. Roedd yr angen i hyrwyddo mynediad ehangach i wasanaethau yn fater a godwyd gan nifer o ymatebwyr i'n hymgyngoriad a gobeithiwn y bydd yr adolygiad hwn yn ysgogi dadl gynhyrchiol.

Amddiffyn dinasyddion a defnyddwyr

2.38 Rydym wedi cydnabod yr angen i dynnu at ei gilydd yr haenau amrywiol o'n gwaith sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr. Byddwn felly'n dechrau'r flwyddyn trwy adolygu'r meysydd gwaith hyn ac yna byddwn yn nodi'n glir strategaeth Ofcom ar gyfer defnyddwyr ac yn nodi blaenoriaethau allweddol. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, byddwn yn parhau gwaith i:

- wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddinasyddion a defnyddwyr, yn bennaf trwy annog darparwyr cyfathrebiadau i gyflenwi gwell gwybodaeth; a
- sicrhau yr amddiffynnir defnyddwyr rhag ystod o boendodau posibl a'u bod yn ymwybodol o'u hawliau e.e. byddwn yn rhoi sylw i'r broblem o gamwerthu trwy godau ymarfer gorfodol sy'n gysylltiedig â gwerthiant a marchnata.

2.39 Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn y bydd gweithredu i wella llythrennedd y cyfryngau. Mewn byd cyfathrebiadau cynyddol gydgyfeiriedig, mae pobl yn wynebu gwell dewis o ran y cyfryngau. Bydd llythrennedd y cyfryngau yn darparu rhywfaint o'r offer y mae ei angen arnynt i wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd a gynigir ac i amddiffyn eu hunain a'u teuluoedd rhag y risgiau sydd ynghlwm. Tanategir gwaith Ofcom gan ymchwil gynhwysfawr i nodi meysydd pryder a sefydlu'r hyn sy'n well gan wylwyr.

2.40 Mewn perthynas â darlledu, byddwn yn:

- cyhoeddi ac yn lledaenu'r cod darlledu diwygiedig, a fydd yn sefydlu safonau ar gyfer rhaglenni a nawdd;
- gwneud gwaith paratoi ar y rheolau sy'n berthnasol i faint a dosbarthiad hysbysebu teledu er, fel y soniwyd uchod, ni fydd penderfyniad yn cael ei wneud am reolau munudau hysbysebu tan yn ddiweddarach yn 2006; a
- monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu mewn perthynas â'r gweithgareddau rheoleiddio hysbysebu darlledu sy'n cael eu rhoi ar gontract.

Egluro buddiant y dinesydd

- 2.41 Yn ein cynllun drafft, nodwyd ein bwriad i wneud gwaith i archwilio ymhellach ystyr 'buddiant y dinesydd' a sut y dylid adlewyrchu hyn yn ein penderfyniadau. Cafwyd diddordeb eang yn y maes hwn a byddwn yn ceisio ysgogi dadl gynhwysol.

Rhoi sylw i gwynion

- 2.42 Swyddogaeth bwysig arall sydd gan Ofcom yw trafod cwynion gan ystod eang o wylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebiadau eraill. Rydym eisoes yn annog cyflenwyr telegyfathrebiadau i ddatrys cwynion gyda'u cwsmeiriaid yn uniongyrchol ac ar y tro cyntaf o ofyn, a bwriadwn ymgynghori ar system newydd o ddelio â chwynion darlledu, lle darlledwyr fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwynion priodol am gynnwys.

Ymrwymiad rhyngwladol (Thema 4)

- 2.43 Bydd sylw cynyddol i ymrwymiad rhyngwladol yn thema allweddol o'n gwaith yn ystod 2005/6. Byddwn yn cyfrannu at Lywyddiaeth y DG o'r UE yn ail hanner 2005, a bydd cynnal cynhadledd ar faterion telegyfathrebiadau a sbectrwm yn rhan bwysig o'r gweithgaredd hwn. Mewn ymateb i'r cynllun drafft, mynegodd nifer o randdeiliaid ddyhead am fwy o dryloywder am ein gwaith rhyngwladol. Rydym felly'n ystyried sefydlu fforwm chwarterol i wella amlygrwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud ac i gynhyrchu mewnbwn.

Telegyfathrebiadau a darlledu

- 2.44 Mewn perthynas â thelegyfathrebiadau a darlledu, bydd ein gwaith rhyngwladol yn cynnwys:
- hyrwyddo ymagwedd fwy cyson at weithredu trefn yr UE sy'n llywodraethu cyfathrebiadau electronig;
 - cyfrannu at ddatblygu polisi cyfathrebiadau yr UE trwy gryfhau ein cysylltiad â Grŵp Rheoleiddwyr Ewrop, a fydd yn ystod 2006 yn cael ei gadeirio gan Bartner Uwch Ofcom, Kip Meek; a
 - chyfrannu at ddatblygu Cyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau wedi'i diwygio'n briodol.

Sbectrwm

- 2.45 Bydd yna ystod o weithgareddau wedi'u cynllunio i gyflawni rhwydwaith rhyngwladol, ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol, sy'n darparu'r lefel ofynnol o gysoni y mae ei hangen i lywio datblygiad gwasanaethau newydd ac arloesol, ynghyd â'r hyblygrwydd i sicrhau'r buddiannau gorau posibl o ran masnachu a rhyddfrydoli sbectrwm. Yn benodol, byddwn yn:
- ceisio penderfyniadau ar lefel Ewropeaidd, er enghraifft, ar y band ehangu 3G a'r Band Llydan Wltra;
 - paratoi ar gyfer Cynhadledd Radio Rhanbarthol 2006 lle byddwn yn ceisio cynllun Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) newydd ar gyfer darlledu digidol; a
 - datblygu cynigion Ewropeaidd drafft ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd 2007.

Cymryd cyfleoedd i leihau rheoleiddio (Thema 5)

- 2.46 Mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i geisio cyfleoedd i leihau rheoleiddio a mabwysiadu ymagwedd arfer gorau at lunio polisiâu.

Lleihau rheoleiddio

- 2.47 Ar draws pob prosiect, byddwn yn edrych am gyfleoedd i leihau rheoleiddio. Dyma enghreifftiau o feysydd lle gall fod yn bosibl lleihau rheoleiddio:
- mae disgwyl i'r adolygiad fframwaith sbectrwm arwain at newid trwyddedau sbectrwm i alluogi mwy o fasnachu a defnydd mwy hyblyg;
 - os, ar ôl ymgynghori, y rhoir ein menter 'darlledwr yn gyntaf' arfaethedig ar waith, gellid bod llai o gwynion darlledu yn cael eu trafod gan y rheoleiddiwr;
 - rhoi'r trefniadau cyd-reoleiddio hyfforddiant ar waith mewn darlledu;
 - gall gweithredu'r adolygiad strategol telegyfathrebiadau arwain at archwilio dadreoleiddio rheoliadau prisio busnes mawr a phrisiau adwerthu BT; a
 - bydd ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn arwain at symud i ffwrdd o gwotâu genre-wrth-genre at ymagwedd newydd yn seiliedig ar "ddibenion a gwerthoedd", gyda goblygiadau penodol ar ddarlledwyr masnachol hefyd yn debygol o leihau.

Llunio polisiau yn well

- 2.48 Byddwn cyn hir yn cwblhau ein canllawiau ar lunio polisiau'n well, a fydd yn pwysleisio'r rôl y gall asesiadau effaith effeithiol ei chwarae wrth waredu rheoleiddio presennol ac osgoi rheoleiddio newydd sy'n amharu'n ddiangen neu reoleiddio nad oes modd ei gyfiawnhau o gwbl.
- 2.49 Byddwn hefyd yn dechrau gwaith ar ddatblygu ein hymagwedd tymor hwy at reoleiddio. Bydd agweddau penodol ar y gwaith hwn yn cynnwys archwilio meddylfryd ac arferion rheoleiddio o amgylch y byd. Yn gysylltiedig â'r prosiect hwn fydd gwaith i ddatblygu ein dealltwriaeth o gydgyfeiriad a'r hyn y bydd yn ei olygu ar gyfer dyfodol y sector cyfathrebiadau. Y nod fydd rheoleiddio mewn modd mwy cydgyfeiriedig a nodi'r cyfleoedd i dynnu'n ôl oddi wrth reoleiddio a all fod ar ddod.

Gweithio'n effeithiol (Thema 6)

- 2.50 Mae ein cynllun 2005/6 yn cynnwys sawl menter a fydd yn helpu gwella ein heffeithiolrwydd gweithredol. Mae'r rhain yn amrywio o'n rhaglen ymchwil barhaus i gyfathrebiadau mwy effeithiol gydag ystod o wahanol grwpiau rhanddeiliaid. Un thema barhaus yn yr ymatebion i'n hymgyngoriad oedd dyhead i ni adlewyrchu yn ein gwaith y gwahaniaethau rhwng Gwledydd a Rhanbarthau'r DG. Bwriadwn wneud hyn trwy gynnal archwiliad a fydd yn dadansoddi cyflwr cyfredol y sector cyfathrebiadau yn ôl Gwlad ac yn ôl Rhanbarth ac asesu i ba raddau y dylid teilwra ein hymagwedd reoleiddio o ganlyniad. Bydd yna gyfres o seminarau a gweithdai fel rhan o'r fenter hon fel y gallwn glywed barnau ein rhanddeiliaid. Yn chwarter olaf 2005/6 byddwn hefyd yn cynnal Seminar Gwledig, Rhanbarthol ac Anghysbell arall.
- 2.51 Byddwn yn parhau i ddadansoddi ar sail technoleg ac ariannu gwaith ymchwil allanol. Trwy'r gwaith hwn, bwriadwn:
- ddeall y sefyllfa gyfredol ac esblygiad tebygol rhwydweithiau cyfathrebiadau yn y DG;
 - deall technolegau a llwyfannau sy'n dod i'r amlwg;
 - lleihau ymyrraeth sbectrwm a gwneud y mwyaf o argaeledd sbectrwm; a
 - datrys materion technegol sy'n gysylltiedig â chadernid a rhyngweithrediadwyedd rhwydwaith.

- 2.52 Bydd gwaith pellach i wella'r broses trwyddedu sbectrum hefyd yn bwysig. Byddwn yn symleiddio cynhyrchion a gwasanaethau, yn dadlreoleiddio lle y gallwn ac yn rhoi gwasanaethau ar-lein.
- 2.53 Bydd ymchwil i'r farchnad hefyd yn faes pwysig o weithgarwch. Byddwn yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o agweddau ac ymddygiad defnyddwyr a SMEs. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys dau adroddiad, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni, ar y Defnyddiwr Digidol a'r Busnesau Bach a Chanolig eu Maint (SMEs) Digidol. Byddwn hefyd yn parhau i gasglu a dehongli data am y farchnad gyfathrebiadau. Bydd yna adroddiad blynyddol ym mis Mehefin eleni a diweddariadau chwarterol wedyn.
- 2.54 Nodwedd arall ar weithio'n effeithiol fydd cysylltiad effeithiol â Phanel Defnyddwyr Ofcom a'n pwyllgorau cynghori eraill. Byddwn hefyd yn rheoli ac yn gweithredu rhaglen ymrwymiad gyda'n rhanddeiliaid gwleidyddol a diwydiannol.
- 2.55 Rydym yn cydnabod yr angen i Ofcom sicrhau bod yna gyfle cyfartal i weithio a gwneud cynnydd yn Ofcom. Codwyd y mater gan nifer o'n rhanddeiliaid, sy'n disgwyl i Ofcom osod enghraifft dda, fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gosod amrywiaeth wrth wraidd Ofcom trwy ddatblygu a gweithredu polisi amrywiaeth integredig. Gwrthwynebwn, a cheisiwn oresgyn, bob math o wahaniaethu anghyfreithlon neu annheg ar sail hil neu ethnigrwydd, rhywioldeb, anabledd, crefydd, cred ac oedran person ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- 2.56 Rydym yn cydnabod bod gweithio'n effeithiol yn cynnwys cyfathrebu'n effeithiol gyda'n rhanddeiliaid, yn enwedig dinasyddion, defnyddwyr a SMEs. Un darn pwysig o waith felly fydd gwella gwefan Ofcom, sy'n rhywbeth y dywedodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y byddent yn ei groesawu.
- 2.57 Yn olaf, nodwn fod angen cymorth ansawdd uchel ar wasanaethau llunio polisiau a gwasanaethau gweithredol Ofcom er mwyn cyflwyno ein canlyniadau'n effeithlon. Mae yna ystod o fentrau gyda ffocws mewnol sy'n ceisio darparu gwasanaethau cymorth gwerth ychwanegol i danategu ein gweithgareddau allanol ac i sicrhau ein bod yn ymarfer rheolau priodol dros ein defnydd o adnoddau.

Deall datblygiadau'r dyfodol (Thema 7)

- 2.58 Yn olaf, byddwn yn dadansoddi ymhellach farchnadoedd sy'n esblygu fel y gallwn ragweld ac ymateb i'r amgylchedd sy'n newid. Bydd y gwaith hwn yn ymdrin â thri phrif faes:
- ail genhedlaeth band eang;
 - llwyfannau amlgyfrwng digidol; a
 - chynhyrchu cynnwys darlledu.
- 2.59 Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion hyn yn gyffredinol, ond nodwyd yr angen am ddadl eang ar y materion a ddaw i'r amlwg. Bydd pob adolygiad felly'n arwain at ymchwil a chynigion cyhoeddedig ar gyfer ymgynghori arnynt ac yn canolbwyntio, yn benodol, ar y cyfle i helpu marchnadoedd cystadleuol i ddatblygu ac i archwilio cyfleoedd i leihau rheoleiddio.

Mynediad i ail genhedlaeth band eang

- 2.60 Mae ein hadolygiad strategol telegyfathrebiadau wedi nodi mesurau i hyrwyddo cystadleuaeth yng ngenhedlaeth gyfredol rhwydweithiau a gwasanaethau

band eang. Bydd yr adolygiad hwn yn nodi cymhellion a rhwystrau sy'n gysylltiedig â datblygu ail genhedlaeth band eang yn y DG ac yn mapio'r goblygiadau i Ofcom. Yn benodol, byddwn yn edrych ar yr:

- opsiynau strwythurol, gan ystyried profiad o'r marchnadoedd nwy a thrydan, cyfleustodau isadeiledd sifil a gwersi o dramor;
- yr achos busnes ar gyfer mynediad i ail genhedlaeth band eang, gan gynnwys risgiau a sensitifrwydd pwysig, rhwystrau rhag mynediad a'r gadwyn gwerth ehangach, fel rôl rheoli hawliau digidol;
- astudiaeth i ddichonolrwydd rhannu cwndidau a gweithfeydd;
- y costau a'r buddiannau i'r DG o ddefnyddio rhwydweithiau ail genhedlaeth ac a oes tystiolaeth o'r farchnad yn methu; a
- graddau datblygiad masnachol tebygol mewn ardaloedd gwledig ac opsiynau polisi i roi sylw i fwch digidol posibl.

Llwyfannau amlgyfrwng digidol

2.61 Diben yr adolygiad hwn fydd sicrhau bod Ofcom yn deall datblygiadau tebygol mewn llwyfannau a gwasanaethau digidol ac yn darparu fframwaith i roi sylw i'r heriau polisi a ddaw i'r amlwg, gan gynnwys cyflwyno cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau, modelau busnes a galw defnyddwyr.

2.62 Y gobaith yw y bydd yr adolygiad hwn yn hwyluso dadl gyhoeddus eang am ddatblygiad cynnwys yn y dyfodol a'r goblygiadau ar gyfer rheoleiddio, os o gwbl. Bydd hefyd yn helpu llywio ein cyfraniad i adolygiad yr UE o'r Gyfarwydddeb Teledu Heb Ffiniau. Bydd yr adolygiad yn rhoi sylw i gwestiynau pwysig fel:

- a yw'r model cyfredol o reoleiddio cynnwys darlledu yn gynaliadwy;
- a yw ymagwedd gyson neu lwyfan-niwtral at reoleiddio cynnwys – gan edrych y tu hwnt i ddarlledu traddodiadol – yn ddymunol neu yn wir yn ymarferol;
- sut y gellir cydbwysu amddiffyn defnyddwyr yn erbyn yr angen i amddiffyn hawliau eraill;
- i ba raddau y bydd dinasyddion a defnyddwyr yn gallu rheoli mynediad i gynnwys eu hunain gan ddefnyddio offer fel rheolau rhieni; a
- beth yw rôl Ofcom mewn cysylltiad â'r Llywodraeth a chyrrff rheoleiddio eraill.

2.63 Yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn fydd gwaith ar hawliau digidol i archwilio sut y mae teledu, ffilm a cherddoriaeth premiwm yn debygol o effeithio ar ddatblygu llwyfannau digidol. Byddwn hefyd yn olrhain datblygiadau technolegol allweddol, fel teledu eglurder uchel, ac yn nodi eu heffaith bosibl ar y defnyddiwr a'r farchnadle.

Cynhyrchu darlledu

2.64 Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio marchnad y DG am gynhyrchu cynnwys darlledu, sut y mae wedi esblygu, ei strwythur, ei gwerth a'i thwf. Byddwn hefyd yn edrych ar gyfeiriad tebygol y farchnad yn y dyfodol a'r goblygiadau i reoleiddio. Tuag at ddiwedd y flwyddyn byddwn yn canolbwyntio ar y materion allweddol sy'n berthnasol i'r sector cynhyrchu annibynnol. Yn gyntaf, byddwn yn adolygu'r diffiniadau cyfredol o "annibynnol cymwys" a "rhaglenni cymwys" a sut y mae'r cwota sy'n mynnu 25% o gynhyrchu annibynnol yn gweithredu. Yn ail, byddwn yn adolygu cynnydd hyd yma gyda'r codau ymarfer sy'n llywodraethu'r telerau masnachu ar gyfer trafodion rhwng cynhyrchwyr annibynnol a darlledwyr.

Ariannu

- 2.65 Bwriad Ofcom yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol a phroffesiynol a darparu gwerth am arian i'n rhanddeiliaid. I'r perwyl hwn, bwriadwn leihau ein costau bob blwyddyn. Mewn geiriau eraill, byddwn yn rheoleiddiwr 'RPI minws x'.

Cymhariaeth â 2004/05

- 2.66 Ar gyfer 2004/05, gosododd Ofcom Gyllideb Weithredu³ o £140 miliwn. Wrth osod y gyllideb honno, ymgorfforodd Ofcom y 5% arbedion effeithlonrwydd yr oedd wedi'i gyflawni eisoes wrth uno swyddogaethau'r pum rheoleiddiwr blaenorol a gostwng nifer y gweithwyr 25%.
- 2.67 Ymrwymodd Ofcom hefyd yn gyhoeddus i geisio ennill 5% pellach o ran effeithlonrwydd yn ystod blwyddyn 2004/05; targed o ennill 5% pellach o ran effeithlonrwydd yn ystod 2005/06 a pharhau i geisio effeithlonrwydd pellach wedyn i fod yn rheoleiddiwr RPI-minws x.

Cyllideb 2005/06 a chanlyniad diwedd blwyddyn

- 2.68 Cyllideb Weithredu Ofcom ar gyfer 2005/06 felly yw £133 miliwn. Mae hyn 5% yn is na chyllideb 2004/05 (8% yn is mewn termau real o gymharu â Chyllideb Weithredu 2004/05 yn ogystal ag RPI).
- 2.69 Amcangyfrifir mai'r canlyniad ar gyfer 2004/05, sef blwyddyn lawn gyntaf Ofcom ar ôl yr uniad, yw £124.1 miliwn. Mae'r ffigur is hwn yn adlewyrchu enillion effeithlonrwydd uwch na ddisgwyliwyd o'r uniad; ond hefyd y bydd nifer o brosiectau mawr, y bwriadwyd eu cwblhau yn 2004/05, yn cael eu cwblhau bellach dros y flwyddyn ariannol sydd ar ddod.
Lleihau baich rheoleiddio	<p>1. Ar draws pob prosiect, edrych am gyfleoedd i leihau rheoleiddio. Dyma enghreifftiau o feysydd lle gall fod yn bosibl lleihau rheoleiddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae disgwyl i'r adolygiad fframwaith sbectrwm arwain at newid trwyddedau sbectrwm i alluogi mwy o fasnachu a defnydd mwy hyblyg; • os yn briodol ar ôl ymgynghori, gallai menter 'darlledwr yn gyntaf' arwain at lai o gŵynion darlledu yn cael eu datrys gan y rheoleiddiwr; • gall gweithredu'r adolygiad strategol telegyfathrebiadau arwain at archwilio dadreoleiddio prisio busnes mawr BT a rheolau pris adwerthu; • bydd ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn arwain at symudiad i ffwrdd o gwotâu genre-wrth-genre at ymagwedd newydd yn seiliedig ar "ddibenion a gwerthoedd", gyda goblygiadau penodol ar ddarlledwyr masnachol hefyd yn debygol o leihau. <p>2. Nodi a gwireddu cyfleoedd i leihau rheoleiddio, gyda ffocws penodol ar sicrhau na chaiff mentrau ehangu marchnad eu rhwystro.</p> <p>3. Aseu llwyddiant Ofcom wrth leihau baich rheoleiddio.</p> <p>4. Alinio ymyriadau rheoleiddio i egwyddorion rheoleiddio Ofcom.</p> <p>5. Datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda chyrrff hunanreoleiddio a chyd-reoleiddio.</p>	<p>Bydd y gwaith hwn yn bwydo i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Blynyddol Ofcom ar gyfer 2004/5: Ch2 05/06 a • Chynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2006/7: ymgynghoriad Ch4 05/06 <p>Rhestrir dan yr adolygiadau unigol allbynnau penodol mewn perthynas â lleihau rheoleiddio</p>	Nicola Floyd

5. Cymryd cyfleoedd i leihau rheoleiddio			
Meysydd Gwaith	Amcanion a Gweithgareddau	Allbynnau ac Amseru	Cysylltiadau
Adolygiadau cymheiriaid economaidd	Sicrhau bod dadansoddiad economaidd Ofcom yn gadarn ac yn amddiffynadwy trwy ddarparu proses adolygu mewnol annibynnol sy'n herio dadansoddiad economaidd ac yn sicrhau bod ystod o opsiynau wedi'u hystyried. Yn benodol, dylai unrhyw gynigion am fwy o reoleiddio fod yn destun archwiliad manwl.	Bydd yn llywio'r dogfennau y mae Ofcom yn eu cyhoeddi	Nicola Floyd
Ymagwedd Reoleiddiol	<p>1. Asesu datblygiadau mewn meddylfryd ac arferion rheoleiddio yn y DG a ledled y byd, nid yn unig yn y sector cyfathrebiadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • resymau ar gyfer ymyrraeth mewn marchnadoedd lle nad presenoldeb pŵer marchnad sylweddol yw'r ffactor penderfynol; a • modelau o ymagwedd reoleiddiol mewn marchnadoedd dynamig sy'n newid. <p>2. Datblygu proses adolygu cymheiriaid strategol i sicrhau ymagwedd gydlynol at gymhwyso ein hegwyddorion rheoleiddio.</p>	Cyhoeddi ymchwil ar faterion allweddol: Ch4 05/06	Robin Foster
Asesiadau effaith	Cwblhau a gweithredu ein canllawiau ar asesiadau effaith, a bydd ymrwymiad adeiladol gyda rhanddeiliaid yn rhan allweddol o hyn.	Cyhoeddi fersiwn derfynol o ganllawiau: Ch1 05/06	Alistair Bridge Alex Blowers
Adolygiad uniadau a pherchenogaeth y cyfryngau	Adolygiad o'r rheolau perchenogaeth y cyfryngau yn y Ddeddf Gyfathrebiadau, gan ganolbwyntio ar sut y maent yn gweithio yn ymarferol a chynnig unrhyw welliannau a allai fod yn briodol.	Dechrau gwaith gyda'r nod o ymgynghori yn 2006/7	Guy Nesdale Anirban Roy

Rheoleiddio cydgyfeiriedig

Cydgyfeiriad	Datblygu dealltwriaeth o gydgyfeiriad a'r hyn y gallai olygu i ddyfodol y farchnad gyfathrebiadau, gan alluogi Ofcom felly i reoleiddio mewn modd mwy cydgyfeiriedig ac i nodi cyfleoedd ar gyfer dadreoleiddio a allai fod ar ddod.	Bydd y gwaith hwn yn llywio ystod o brosiectau Ofcom ac yn bwydo i'n gwaith ymagwedd reoleiddio	Ben Willis
--------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------	------------

6. Gweithio'n effeithiol

Meysydd Gwaith	Amcanion a Gweithgareddau	Allbynnau ac Amseru	Cysylltiadau
Ymchwil datblygiadol			
Archwiliad o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau	Dadansoddi cyflwr cyfredol y sector cyfathrebiadau yn ôl Gwlad ac yn ôl Rhanbarth ac asesu sut y dylid teilwra ein hymagwedd reoleiddio i bob Gwlad a Rhanbarth.	Seminarau a gweithdai i'w cynnal yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau, gan gynnwys seminar Gwledig, Rhanbarthol ac Anghysbell: Ch3 05/06-Ch4 05/06 Cyhoeddi adroddiad: Ch4 05/06	Helen Normoyle Alex Blowers
Sail dystiolaeth ar gyfer llunio polisiau			
Dadansoddiad ar sail technoleg	<ol style="list-style-type: none"> I ddarparu sail gadarn ar gyfer polisi cystadleuaeth, datblygu dealltwriaeth fanwl o gyflwr cyfredol ac esblygiad tebygol rhwydweithiau cyfathrebiadau'r DG yn y dyfodol Deall technolegau a llwyfannau sy'n dod i'r amlwg. Goruchwyllo gwariant Ofcom ar ymchwil allanol. 	Adolygiad ymchwil blynyddol: Ch2 05/06 Symposiwm ymchwil blynyddol: Ch3 05/06 Symposiwm tueddiadau technoleg: Ch4 05/06 Adroddiad tueddiadau technoleg: Ch4 05/06	Peter Ingram William Webb

6. Gweithio'n effeithiol

Meysydd Gwaith	Amcanion a Gweithgareddau	Allbynnau ac Amseru	Cysylltiadau
	<p>4. Lleihau ymyrraeth sbectrwm a mwyhau argaeledd sbectrwm.</p> <p>5. Datrys materion technegol sy'n gysylltiedig â chadernid a rhyngweithredadwyedd rhwydwaith.</p> <p>6. Mwyhau argaeledd a chyfleustod adnodd sbectrwm i gefnogi gwasanaethau teledu a radio trwyddedig eang</p> <p>7. Datblygu polisi rheoli sianel gyfagos DAB gan ymgynghori'n uniongyrchol â thrwyddedigion a'u darparwyr darlledu</p>	<p>Diweddaru nodiadau arweiniad ar bolisi rheoli sianel gyfagos DAB: Ch2 05/06</p> <p>Datblygu polisi cyd-reoleiddio ansawdd sain DAB (yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad yr Adolygiad Radio): Ch2 05/06</p> <p>Bwydo gwybodaeth i brosiectau polisi cystadleuaeth am rwydweithiau telegyfathrebiadau'r DG e.e. data cynnwys rhwydwaith: Ch1 05/06-Ch4 05/06</p>	<p>Mark Thomas</p> <p>Steve Ripley</p> <p>Peter Madry</p> <p>Steve Unger</p>
<p>Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad</p>	<p>1. Cynnal gwaith ymchwil i ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi ar draws Ofcom.</p> <p>2. Ennill gwell dealltwriaeth o wahaniaethau allweddol mewn agwedd, ymddygiad a demograffeg/ffordd o fyw ar draws defnyddwyr ac SMEs.</p> <p>3. Cyfathrebu i randdeiliaid Ofcom gyflwr y farchnad gyfathrebiadau.</p>	<p>Adroddiad blynyddol ar y farchnad gyfathrebiadau: Ch1 05/06</p> <p>Adroddiadau chwarterol ar y farchnad gyfathrebiadau: Ch2, Ch3 a Ch4 05/06</p>	<p>Helen Normoyle</p> <p>Peter Davies</p> <p>Justin LePatourel</p>
<p>Agweddau ac ymddygiad defnyddwyr ac SMEs</p>	<p>Adeiladu darlun trosfwaol o agweddau ac ymddygiad SMEs a defnyddwyr</p>	<p>Adroddiad ar y Defnyddiwr Digidol: Ch2 05/06</p> <p>Adroddiad ar yr SME Digidol: Ch3 05/06</p>	<p>Helen Normoyle</p>

6. Gweithio'n effeithiol			
Meysydd Gwaith	Amcanion a Gweithgareddau	Allbynnau ac Amseru	Cysylltiadau
Mentrau polisi traws-Ofcom			
Cynllun Strategol	Nodi blaenoriaethau a chynlluniau gweithredu strategol allweddol Ofcom ar gyfer 2006/7 (a'r 2 i 3 blynedd wedyn), ei ymagwedd at reoleiddio, ei feddylfryd strategol yn y dyfodol a'i statws ariannol.	Dogfen ymgynghori: Ch4 05/06	Jim Egan Justin LePatourel
Gwerthusiad	1. Gwerthuso perfformiad Ofcom a datblygu'r fframwaith gwerthuso ymhellach. 2. Mesur a monitro'r ystod lawn o farnau rhanddeiliaid am Ofcom mewn modd cyson a chymaradwy.	Bydd data ar ein perfformiad yn llywio cyhoeddiadau allanol, fel ein Hadroddiad Blynyddol: Ch1 05/06	Sarah Evans Alex Blowers
Cysylltu ac ymwneud â'r Panel Defnyddwyr, pwyllgorau cynghori Cenedlaethol ac eraill	Sicrhau ymrwymiad traws-Ofcom gyda phaneli a phwyllgorau cynghori Ofcom i sicrhau y gall grwpiau rhanddeiliaid gysylltu'n llawn ag Ofcom.	Bydd y gwaith hwn yn digwydd trwy gydol y flwyddyn: Ch1 05/06-Ch4 05/06	Julie Myers David Edwards Steve Perkins
Cysylltiadau cyhoeddus, gwleidyddol a diwydiant	Rheoli a gweithredu rhaglen o gysylltiadau cyhoeddus, gwleidyddol a diwydiant.	Rhaglen cysylltiad rheolaidd: Ch1 05/06-Ch4 05/06 Briffiadau a chynrychioliad: Ch1 05/06-Ch4 05/06	Roger Lowry Simon Crine

6. Gweithio'n effeithiol

Meysydd Gwaith	Amcanion a Gweithgareddau	Allbynnau ac Amseru	Cysylltiadau
Amrywiaeth	<ol style="list-style-type: none">1. Datblygu, gweithredu a rheoli strategaeth amrywiaeth integredig fewnol.2. Cwblhau Cynllun Iaith Gymraeg i'w gytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.3. Cwblhau cynllun cydraddoldeb dan Ddeddf Gogledd Iwerddon (NI).	<p>Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol: Ch1</p> <p>Cyflwyno cam cyntaf hyfforddiant amrywiaeth trwy Ofcom i gyd: Ch1</p> <p>Cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg: Ch3</p> <p>Monitro parhaus o Gynllun Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon</p>	<p>Rhodri Williams</p> <p>Tony Stoller</p> <p>Bradley Brady</p>
Cyfathrebiadau	<ol style="list-style-type: none">1. Rheoli gwefan Ofcom a gwneud gwelliannau2. Cyhoeddi dogfennau Ofcom, ac anfon diweddariadau ar e-byst at randdeiliaid a thanysgrifwyr i'r wefan	<p>Gwefan sy'n hawdd ei defnyddio.</p> <p>Cyhoeddiadau ar gael ar-lein, ar gopi caled ac mewn fformatau ac ieithoedd amgen fel sy'n briodol</p>	<p>Matt Peacock</p> <p>Andy Bailey</p>

7. Deall datblygiadau'r dyfodol

Meysydd Gwaith	Amcanion a Gweithgareddau	Allbynnau ac Amseru	Cysylltiadau
Dadansoddi marchnadoedd sy'n newid			
Ail genhedlaeth band eang	<p>1. Nodi cymhellion a rhwystrau i ddatblygu ail genhedlaeth band eang, gan gynnwys materion cynnwys a hawliau digidol.</p> <p>2. Mapio rôl glir ar gyfer Ofcom yn cefnogi lefel briodol o ddatblygu band eang.</p>	<p>Ymgynghoriad: Ch2 05/06</p> <p>Datganiad: Ch4 05/06</p>	<p>Dougal Scott</p> <p>Ben Willis</p>
Esblygiad llwyfannau amlgyfrwng digidol a'r goblygiadau ar gyfer rheoleiddio	<p>Sicrhau bod Ofcom yn deall datblygiadau tebygol mewn llwyfannau a gwasanaethau digidol ac yn llunio fframwaith i roi sylw i'r heriau rheoleiddio a pholisi sy'n dod i'r amlwg - gan ymdrin â chyflwyno cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau, modelau busnes, galw defnyddwyr ac opsiynau ar gyfer rheoleiddio. I gynnwys llifau gwaith ar:</p> <p>Hawliau digidol – i archwilio sut y gallai gwasanaethau teledu, ffilm a cherddoriaeth premiwm gynyddu'r nifer sy'n defnyddio band eang a'r rhwystrau posibl rhag datblygu'r gwasanaethau hyn;</p> <p>Technoleg cynnwys – i olrhain datblygiadau technolegol allweddol a'u heffaith bosibl ar y defnyddiwr, y farchnad a rheoleiddio e.e. technolegau amlgyfrwng symudol, teledu Eglurder Uchel a Recordwyr Fideo Personol;</p> <p>Rheoleiddio cynnwys – i ystyried materion ac opsiynau ar gyfer rheoleiddio cynnwys ar y rhyngwyd, gyda'r gwaith hwn yn cynnwys dadl gyhoeddus eang a gwaith ymchwil helaeth.</p>	<p>Ymgynghoriad ar gam 1: Ch2 05/06</p> <p>Ymgynghoriad ar gam 2: Ch4 05/06</p>	<p>Martin Hart</p> <p>Guy Nesdale</p> <p>Claire Davenport</p> <p>Peter Davies</p> <p>David. Mark. Harrison</p>

7. Deall datblygiadau'r dyfodol

Meysydd Gwaith	Amcanion a Gweithgareddau	Allbynnau ac Amseru	Cysylltiadau
Adolygiad o gynhyrchu cynnwys a'r sector annibynnol	<p>1. Adolygu strwythur sector cynhyrchu cynnwys darlledu y DG, y rhagolygon ar gyfer twf, effaith rheoleiddio a'r goblygiadau ar gyfer cynhyrchu a rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol.</p> <p>2. Ar y cyd â'r adolygiad strategol ehangach, cynnal asesiad o ddiffiniadau cyfredol o "ddisgrifiadol annibynnol" a "rhaglenni disgrifiadol" ac adolygu gweithrediad y cwota a'r codau ymarfer 25% annibynnol.</p>	<p>Dogfen Gwmpasu: Ch1 05/06</p> <p>Yn amodol ar gwmpas, dyma allbynnau pellach dros dro: Ymgynghoriad ar gam 1 yr adolygiad: Ch2 05/06</p> <p>Ymgynghoriad ar gam 2: Ch3 05/06</p> <p>Adroddiad terfynol: Ch4 05/06</p>	<p>Jim Egan</p> <p>Kate Stross</p> <p>Khalid Hayat</p> <p>Jonathan Porter</p>

Adran 4

Calendr o allbynnau cynlluniedig

4.1 Dyma galendr o allbynnau a cherrig milltir allweddol; ni fwriedir iddo fod yn olwg cynhwysfawr ar holl allbynnau Ofcom. Mae'r rhain yn amseroedd bras gan y gallai digwyddiadau yn y flwyddyn arwain at newidiadau mewn amseroedd.

Allwedd: Y= Ymgynghoriad; D = Datganiad; A = Adroddiad

Rhoi adolygiadau strategol ar waith	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
<p>Adolygiad strategol telegyfathrebiadau – cwblhau a gweithredu</p>	<p>Gwaith parhaus i baratoi ar gyfer atgyfeiriad posibl i'r Comisiwn Cystadleuaeth dan y Ddeddf Fenter</p> <p>Gwaith parhaus ar lywodraethu ac ymrwymadau BT, a ffiniau Rhaniad Gwasanaethau Mynediad (ASD)</p> <p>[Y]: Cywerthedd a llywodraethu: canllawiau ar ddiwahaniaethu mynediad ac unioni achosion o dorri</p> <p>[Y]: Y farchnad band cul - [WLR] mewn marchnadoedd llais adwerthu preswyl</p> <p>[Y]: Mynediad Band Eang Cyfanwerth</p> <p>[Y]: Dadansoddiad marchnad ddaearyddol: unioni SMP neu'r farchnad llinellau ar brydlas</p> <p>[D]: Troslais band eang</p>	<p>[D]: TSR Cam 3</p> <p>[D]: Rheoli taliad rhwydwaith: cymhwyso o fis Hydref '05:</p> <p>[D]: Cost mynediad i rwydwaith mynediad copr BT</p> <p>[D]: Dadfwndelu Dolen Leol Uchafbrisiau Cam 2</p>	<p>[Y]: Y farchnad band cul – marchnadoedd llais adwerthu busnes</p> <p>[A]: Troslais band eang: adroddiad gweithredu amddiffyn defnyddwyr</p> <p>[A]: Troslais band eang: adroddiad datblygu'r farchnad</p>	<p>[Y] Y farchnad band cul: deialu uniongyrchol rhyngwladol cyfanwerth</p> <p>[D]: Mynediad Band Eang Cyfanwerth</p>

Rhoi adolygiadau strategol ar waith	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Adolygiad darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) - gweithrediad	<p>[Y]: Opsiynau ar gyfer teledu lleol</p> <p>[D]: Cynigion Cam 3 PSB - y Gwledydd a'r Rhanbarthau</p> <p>Diwygio trwyddedau ITV i adlewyrchu cwotâu cynhyrchu ac allbwn Haen 2</p> <p>Cynllunio a chyflwyno modd o olrhain ymchwil o gyflwyno PSB</p> <p>Cyfraniad at broses ymgynghori papur gwyrdd y BBC</p>		<p>[D]: Teledu lleol</p> <p>[A]: Cyhoeddi asesiad cyflwyno PSB 1^{af}</p> <p>[Y]: Opsiynau ar gyfer Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus – dadansoddi ac ymchwil pellach</p>	
Adolygiad Fframwaith Sbectrwm (SFR) – cwblhau a gweithredu	[D]: ar ôl ymgynghoriad SFR Tach 04			
Adolygiad radio – cwblhau a gweithredu	[Y]: Cam 2		[D]: Cam 3	Cydreoleiddio monitro rheoliadau lleoldeb analog

Ehangu marchnadoedd ac annog arloesedd	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Hyrwyddo cystadleuaeth mewn darlledu teledu	Penderfyniad ar drefniadau rhwydweithio Channel 3	[D]: Adolygiad o Reoli Mynediad a Mynediad i EPGs [Y]: Adolygiad o Gyfarwyddwyd ITC ar ofynion cludo gofynnol [Y]: Adolygiad o Godau ITC ar Draws-Hyrwyddo		Dechrau adolygiad o ateb unioni Adnewyddu Hawliau Contract (CRR) a'r farchnad hysbysebu teledu [D]: Datganiadau ar ofynion cludo gofynnol a thraws-hyrwyddo
Rhyddhau sbectrwm a hyrwyddo defnydd effeithlon o sbectrwm	Dadansoddi ymatebion i gynllun Gweithredu'r Adolygiad Fframwaith Sbectrwm (SFRIP), [D]: Penderfynu ar y ffordd ymlaen a chyhoeddi rhaglen waith. [D]: Newid i Ddigidol – penderfyniad ar opsiynau cynllunio	Archwiliad annibynnol o ddaliadau sbectrwm pwysig – Cyhoeddi casgliadau sy'n dod i'r amlwg.	[Y]: Ehangu masnachu i ddosbarthiadau trwydded Radio Busnes Preifat (PBR) ardal eang a Radio Symudol Mynediad Cyhoeddus (PAMR) digidol [Y]: Cymhwyso prisio sbectrwm i sbectrwm darlledu [Y]: Opsiynau ar gyfer cyflwyno Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig (RSA) ar gyfer gwasanaethau lloeren [A]: Archwiliad annibynnol o ddaliadau sbectrwm pwysig – Cyhoeddi adroddiad terfynol	Ehangu'r rheoliadau masnachu sbectrwm [Y]: Opsiynau technegol a masnachol ar gyfer defnyddio sbectrwm a ryddheir gan y newid i ddigidol Adroddiadau llinell sylfaenol archwiliad sbectrwm ar y sbectrwm radio busnes i'w ryddfrydoli Y dyfarniadau sbectrwm cyntaf fel a nodwyd yn y rhaglen waith ar gyfer yr SFRIP
Materion telegyfathrebiadau eraill	[Y]: Cam 2 adolygiad Marchnad NTS [Y] Cychwynnol: Adolygiad o'r Farchnad terfynu galwadau symudol Adolygiad o'r farchnad crwydro rhyngwladol cyfanwerth: safle cyffredin ERG Dechrau gwaith ar ymagwedd strategol gyffredinol at rifo	[D]: Adolygiad polisi a marchnad NTS terfynol [Y] Pellach: Adolygiad o'r Farchnad terfynu galwadau symudol [Y]: Adolygiad o'r farchnad crwydro rhyngwladol cyfanwerth	[D]: Adolygiad o'r farchnad crwydro rhyngwladol cyfanwerth	[D]: Terfynu'r adolygiad o'r Farchnad terfynu galwadau symudol: gan gynnwys gorfodi unrhyw oblygiadau rheoleiddio angenrheidiol

Rhoi sylw i faterion dinasyddion a defnyddwyr pwysig	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Llythrennedd y cyfryngau	<p>Datblygu rhan o wefan Ofcom yn arbennig ar gyfer llythrennedd y cyfryngau</p> <p>Llythrennedd y cyfryngau – Bwletin electronig chwarterol ar gyfer rhanddeiliaid</p> <p>Wythnos Ddysgu Oedolion</p>	<p>[A]: Cyhoeddiad llythrennedd y cyfryngau a chyflwyno gwaith ymchwil</p> <p>Cynhadledd yn Lerpwl yn rhan o Lywyddiaeth y DG o'r UE</p>		
Materion USO a Mynediad		[D]: Gwasanaeth cyffredinol ac Ymgynghoriad statudol pellach	[D] Terfynol: Gwasanaeth cyffredinol [Y]: Newidiadau i god Mynediad teledu, arweiniad safonau ac i oblygiadau gwasanaeth mynediad; newidiadau i'r cod EPG	[Y]: Trafodaethau polisi UE ehangach: Costau/buddiannau gwasanaeth cyffredinol Astudiaeth ddichonoldeb ar wasanaeth trosglwyddo fideo
Amddiffyn defnyddwyr	Cyhoeddi Memorandwm o Ddealltwriaeth ICSTIS a Dangosyddion Perfformiad Allweddol	[Y]: Newidiadau i God Ymarfer ICSTIS	[D]: Cod Ymarfer ICSTIS	
Cynnwys a safonau	[D]: Cod Darlledu Ofcom [A]: Cyhoeddiad ASA o adroddiad blynyddol ar gyd-reoleiddio hysbysebu	[Y]: Hysbysebu bwyd i blant [D]: Gwybodaeth Cyd-reoleiddio hyfforddiant darlledu	[Y]: Polisi ar drafod cwynion, gan gynnwys 'y Darlledwr yn Gyntaf' [A]: Cyhoeddiad ASA o adroddiad canol blwyddyn ar gydreoleiddio hysbysebu	[D]: Hysbysebu bwyd i blant

	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Ymrwymiad rhyngwladol	<p>Dechrau paratoi ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd 2007</p> <p>Cyfranogiad parhaus mewn IRG a arweinyddiaeth ERG</p> <p>Penderfyniad ECC ac UE ar Fand Llydan Wltra</p> <p>Penderfyniad ECC ac UE ar ehangu 3G</p> <p>Penderfyniadau'r Cyngor ITU</p>	<p>Ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar newidiadau arfaethedig i'r Adolygiad o'r Gyfarwydddeb Teledu Heb Ffiniau (TWF)</p>	<p>Barn Grŵp Polisi Sbectrwm Radio ar lwyfannau mynediad di-wifr</p> <p>Cynhadledd Safleoedd y Wladwriaeth ar gyfer Plenipotensiwr ITU 2006 (PP06)</p> <p>Cyfraniad y DG at yr ail ymarfer cynllunio'r gynhadledd radio rhanbarthol</p> <p>Cynhadledd ar faterion telegyfathrebiadau a sbectrwm (yn rhan o Lywyddiaeth y DG o'r UE)</p>	<p>Cynigion Ewropeaidd ar gyfer PP06</p> <p>Penderfyniadau Cynhadledd Datblygu Telegyfathrebiadau'r Byd</p> <p>Cynigion a chefnogaeth y DG ar gyfer cynigion Ewropeaidd ar Gynhadledd Radio Rhanbarthol</p>
Cymryd cyfleoedd i leihau rheoleiddio –	<p>Dechrau gwaith manwl ar roi adolygiadau strategol ar waith, e.e. mewn telegyfathrebiadau a sbectrwm</p> <p>[D]: Cyhoeddi fersiwn derfynol canllawiau asesiadau effaith</p>	<p>Lleihau baich rheoleiddio – cyfrannu at Adroddiad Blynyddol Ofcom ar gyfer 2004/5</p>		<p>[Y]: Ymgynghoriad ar Gynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2006/7</p>
Gweithio'n effeithiol	<p>[A]: Adroddiad blynyddol ar y farchnad gyfathrebiadau ym mis Mehefin 2005</p> <p>[A]: Adroddiadau chwarterol ar y farchnad gyfathrebiadau ym mis Gorffennaf 2005, mis Hydref 2005 a mis Ionawr 2006.</p> <p>Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol</p> <p>Parhau i fonitro Cynllun Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon</p>	<p>[A]: Dadansoddiad ar sail technoleg – Adolygiad ymchwil blynyddol</p> <p>Datblygu rheolaeth sianel cyfagos DAB, polisi cydreoleiddio ansawdd sain</p> <p>[A]: gwerthuso perfformiad Ofcom yn 2004/5</p>	<p>[Y]: Cynnal seminarau a gweithdai Archwiliad o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau – i'w dilyn gan adroddiad Ofcom ar faterion mynediad</p> <p>Cyhoeddi cynllun Iaith Gymraeg</p>	<p>Symposiwm tueddiadau technoleg</p> <p>[A]: Adroddiad tueddiadau technoleg</p> <p>[Y] : Cynllun strategol blynyddol 2006/7</p> <p>Seminar Gwledig, Rhanbarthol ac Anghysbell</p>

	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Deall datblygiadau'r dyfodol				
Ail Genhedlaeth Band Eang	Cyhoeddi cylch gorchwyl	[Y]: Archwilio'r hinsawdd fusnes a'r gyrrwyr cynnwys ar gyfer ail genhedlaeth band eang		[D]: Datganiad terfynol
Amlygyfryngau digidol	Cyhoeddi cylch gorchwyl Datblygu safle ar gyfer adolygiad TWF	[Y]: Cam 1	Dadleuon cyhoeddus	[Y]: Cam 2
Cynhyrchu cynnwys	Cyhoeddi cylch gorchwyl	[Y]: Cam 1	[Y]: Cam 2	[D]: Datganiad terfynol

Atodiad A

Ymateb i'r ymgynghoriad

A.1 Cafodd cynllun blynyddol Ofcom ar gyfer 2005/6 ei lywio gan broses drylwyr o ymgynghori. Cafwyd mwy na 50 o ymatebion ysgrifenedig gan ystod amrywiol o unigolion a sefydliadau. Clywsom farnau rhanddeiliaid mewn digwyddiadau yng Nghaeredin, Caerdydd, Belfast, Leeds a Llundain, a llywiwyd eu sylwadau hwythau gan brofiad uniongyrchol o ymgymryd ag Ofcom yn ystod ein blwyddyn gyntaf ar waith. Gwnaethom gyfarfod â'r Pwyllgorau Cynghori dros Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y Bwrdd Cynghori Sbectwm a'r Panel Defnyddwyr. Cawsom adborth hefyd trwy ein cyfarfodydd parhaus â rhanddeiliaid.

Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad ac ymateb Ofcom

A.2 Yng ngweddill yr atodiad hwn, rydym yn crynhoi'r ymatebion i'r pum cwestiwn a ofynnwyd gennym yn ein cynllun drafft ac yn darparu ymateb byr gan Ofcom.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'n cynigion amlinellol ar gyfer ein gorwel cynllunio tair blynedd?

- A.3 Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi ein cynllun drafft. Teimlwyd ei fod yn gynhwysfawr ac wedi'i esbonio'n glir a chroesawodd y rhanddeiliaid yr ymdeimlad o gyfeiriad a ddarparwyd gan y fframwaith strategol tair blynedd, gan gynnwys ein cynllun i adolygu, yn 2007/8, effeithiolrwydd newidiadau polisi a rheoleiddio allweddol a gyflwynwyd yn ystod ein tair blynedd gyntaf.
- A.4 Cafwyd cefnogaeth eang hefyd am ein hamcan cyffredinol - sef datblygu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, trwy annog cystadleuaeth lle bo'n briodol - ac am ein hegwyddorion rheoleiddio, yn enwedig ein bias yn erbyn ymyrraeth. Awgrymodd rai ymatebwyr, fodd bynnag, fod angen i ni roi mwy o flaenoriaeth i fuddiannau dinasyddion (yn hytrach na buddiannau defnyddwyr) yn y gwaith a wawn. Rhybuddiodd eraill na ddylid dilyn ein bias yn erbyn ymyrraeth yn y marchnadoedd hynny lle nad yw cystadleuaeth effeithiol wedi dod i'r amlwg eto.
- A.5 Cafwyd sawl cais am well eglurder ynghylch allbynnau, pryd yn ystod y flwyddyn y byddai'r gwahanol lifau gwaith yn cael eu cynnal a phwy i gysylltu ag ef am fwy o wybodaeth.
- A.6 **Sylwadau Ofcom:** Mae Adran 2 yn nodi ein fframwaith strategol tair blynedd a'r meddylfryd sy'n sail iddo. Darperir gwybodaeth fanwl am bob llif gwaith yn adran 3. Er ein bod yn credu bod gennym gydbwysedd synhwyrol rhwng ein gwaith ar ran dinasyddion a defnyddwyr, cytunwn y dylem fynegi'n gliriach yn 2005/6 sut yr ydym yn ymgorffori ac yn asesu buddiannau dinasyddion wrth wneud penderfyniadau a dychwelwn at y thema hon yn ddiweddarach yn yr adran hon. Cytunwn hefyd, yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio, y dylem barhau i ymyrryd yn gyflym ac yn gadarn lle bod angen clir am ymyrraeth reoleiddio. Ond parhawn i gredu ei bod yn bwysig i unrhyw reoleiddiwr gynnal bias yn erbyn ymyrryd – i osgoi'r perygl o ymgripiad rheoleiddio a'i gostau cysylltiedig i ddiwydiant ac, yn y pen draw, i ddefnyddwyr.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r blaenoriaethau bras a nodwyd ar gyfer 2005/6?

A.7 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol am y saith maes gwaith a nodwyd gennym. Ceir manylion y sylwadau a wnaed mewn perthynas â phob un o'r meysydd hyn isod.

1. Rhoi'r adolygiadau strategol ar waith

- A.8 Cytunodd rhanddeiliaid â'n pwyslais ar roi'r adolygiadau strategol ar waith a ddechreuwyd gennym yn ein blwyddyn gyntaf o weithredu. Teimlwyd yn eang mai hyn ddylai fod blaenoriaeth allweddol Ofcom yn 2005/6. Cafwyd ychydig bryder, fodd bynnag, ein bod yn dal i ymgynghori ar faterion penodol, yn enwedig mewn perthynas â sbectrwm, tra'n dal i ymgynghori ar y fframwaith troswaol. Hefyd, teimlodd rhai rhanddeiliaid nad oeddem, wrth gynnal ein hadolygiadau, wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r gwahaniaethau rhwng y Gwledydd a'r Rhanbarthau yn y DG.
- A.9 Cafwyd amrywiaeth o ymatebion ar wahanol agweddau ar yr Adolygiad Strategol Telegyfathrebiadau (TSR). Cafwyd cefnogaeth am fwy o waith ar farchnadoedd daearyddol, gyda rhanddeiliaid yn awyddus i gymryd rhan yn y ddadl hon. Croesawyd hefyd waith cynlluniedig ar rwydwaith 21^{ain} Ganrif BT. Fodd bynnag, mynegodd rai rhanddeiliaid bryder nad oedd dadreoleiddio yn digwydd yn ddigon cyflym.
- A.10 O ran yr adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB), cafwyd cefnogaeth benodol am ein gwaith arfaethedig ar deledu lleol a diddordeb sylweddol yn ein hadolygiad cynlluniedig o ddiffiniad statws PSB. Gwnaeth sawl ymatebydd erfyn arnom i sicrhau bod buddiannau grwpiau lleiafrifol amrywiol yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith a gynllunnir ar gyfer 2005/6 a'n bod yn rhoi'r sylw gofynnol i lythrennedd y cyfryngau.
- A.11 **Sylwadau Ofcom:** *Wrth nodi ei gynllun ar gyfer 2005/06, mae Ofcom yn ymwybodol bod manylion rhai o'n gweithgareddau yn dibynnu ar ganlyniadau rhai o'n hadolygiadau allweddol nad ydynt wedi dod i ben eto. Byddwn yn sicrhau y cydlynir ein gwaith yn gywir fel bod gwaith parhaus yn adlewyrchu'r meddylfryd a ddaw o'r adolygiadau. Bydd ein gwaith i roi'r adolygiadau strategol ar waith hefyd yn adlewyrchu buddiannau'r Gwledydd a'r Rhanbarthau y mae ymatebwyr wedi'u hamlygu.*
- A.12 *Bydd y materion a godwyd gan rhanddeiliaid mewn perthynas â'r TSR yn cael sylw yng ngham 3 yr adolygiad ac wrth roi llifau gwaith amrywiol ar waith. Yn benodol, byddwn yn parhau gwaith i baratoi naill ar ar gyfer gwneud atgyfeiriad i'r Comisiwn Cystadleuaeth dan y Ddeddf Fenter neu ddarparu i gystadleuwyr BT wir gydraddoldeb o ran mynediad i'w rwydwaith. Croesawn y gefnogaeth gyffredinol am y gwaith a gynigiwyd i roi'r TSR ar waith a disgwyliwn gysylltu'n llawn â'n rhanddeiliaid wrth fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen.*
- A.13 *Fel rhan o roi'r adolygiad strategol o PSB ar waith, mae Ofcom yn cynllunio gwaith pellach ar deledu lleol a bydd hefyd yn ystyried ffyrdd y gellid cyflwyno rhai o fuddiannau statws PSB i wasanaethau aml-sianel presennol os ystyrir eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol i PSB.*
- A.14 *Bydd y materion sbectrwm manwl a godwyd gan rhanddeiliaid yn cael sylw fel rhan o gyfnod terfynol yr adolygiad fframwaith sbectrwm ac mewn ymgynghoriadau sbectrwm eraill.*

A.15 *Caiff elfennau allweddol ein gwaith i roi'r adolygiadau strategol ar waith eu disgrifio yn adran 2, ac yn adran 3 nodwn fanylion yr holl lifau gwaith perthnasol.*

2. Ehangu marchnadoedd ac annog arloesedd

A.16 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i rôl Ofcom wrth barhau i annog a hyrwyddo marchnadoedd cyfathrebiadau dynamig, agored a hyblyg. Yn fwy penodol, awgrymodd rhanddeiliaid y dylid cynllunio dyfarniadau sbectrwm yn ofalus yn ogystal â'r camau nesaf tuag at ryddfrydoli sbectrwm.

A.17 Croesawodd rhanddeiliaid yr adolygiad cynlluniedig o gystadleuaeth mewn darlledu, ond roeddent yn awyddus na ddylai ychwanegu at reoleiddio yn ddiangen. Cafwyd diddordeb yn ein hadolygiad o unioni Adnewyddu Hawliau Contract (CRR) a marchnadoedd hysbysebu teledu, y byddwn yn ei ddechrau yn chwarter olaf 2005/6. Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad bwysigrwydd buddiannau cymuned yn ogystal â buddiannau masnachol a chwestiynwyd a oeddem wedi rhoi digon o bwysigrwydd i'r maes hwn, yn enwedig radio cymunedol.

A.18 Gofynnodd rai rhanddeiliaid i ni ystyried gwahanol opsiynau mewn perthynas â rheoleiddio radio amatur yn y dyfodol, egluro cynlluniau ar gyfer adolygu triniaeth bandiau awyrennol a chydabod bod deiliaid Trwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig (RSLs) teledu analog yn darlledu i sail wylwyr ostyngol wrth i wylwyr symud i lwyfannau digidol. Amlygwyd hefyd fod angen sicrhau bod materion sy'n gysylltiedig â sbectrwm ar gyfer gwasanaethau argyfwng yn cael eu hystyried yn llawn yn y symudiad i ehangu'r farchnad sbectrwm.

A.19 O ran gorfodi sbectrwm, cafwyd galw i Ofcom ddatblygu gorsaf fonitro sbectrwm cynhwysfawr o bell yn yr ystod DC-6GHz ac i gydnabod pwysigrwydd rheoli ymyrraeth wrth greu amgylchedd masnachu dichonol. Amlygwyd hefyd yr angen pwysig am ymagwedd gydlynol at rifo a Gwasanaethau Trosi Rhif (NTS).

A.20 **Sylwadau Ofcom:** *Bydd yr adolygiad o gystadleuaeth mewn darlledu yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ddatblygiadau dros y 2 i 3 blynedd nesaf. Un o'i nodau fydd asesu lle y gall Ofcom leihau rheoleiddio, er enghraifft, trwy archwilio'r codau a'r canllawiau amrywiol a etifeddwyd oddi wrth ein rhagflaenwyr rheoleiddio.*

A.21 *Amlinellir gwaith Ofcom ar radio cymunedol yn y cynllun hwn. Yn 2005/06 mae Ofcom yn disgwyl cwblhau rownd gyntaf o ddyfarnu trwyddedau radio cymunedol newydd a dechrau'r ail rownd. Byddwn hefyd yn sefydlu ac yn dechrau gwneud grantiau o'r Gronfa Radio Cymunedol. Mewn ymateb i'r barnau a gafwyd am ein hymagwedd at faterion rhifo, bwriadwn adolygu ein gwaith ar rifo a NTS mewn prosiect strategol.*

A.22 *Rhoir sylw i'r ystod eang o faterion sbectrwm a godwyd gan rhanddeiliaid yn ymgynghoriadau amrywiol Ofcom ar faterion sbectrwm, gan gynnwys radio amatur, a byddwn yn sicrhau yr ystyrir barnau ystod lawn ein rhanddeiliaid.*

A.23 *Disgrifir elfennau allweddol ein gwaith dan y thema hon yn adran 2 ac yn adran 3 nodwn fanylion yr holl lifau gwaith perthnasol.*

3. Rhoi sylw i faterion pwysig dinasyddion a defnyddwyr

- A.24 Croesawodd randdeiliaid y ffaith y cyfeiriwyd ar wahân at fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr a chafwyd dyhead ymhlith rhanddeiliaid i gael eu cynnwys yn y ddatl ynghylch sut yr adlewyrchir buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ym mhenderfyniadau polisi a rheoleiddio Ofcom.
- A.25 Cafwyd cefnogaeth gref i'n nod o annog amgylchedd lle mae dinasyddion a defnyddwyr yn fwy gwybodus ac yn cael yr opsiwn i gael mwy o reolaeth ar gynnwys a mwy o ddewis o'r gwasanaethau a ddefnyddiant. Amlygodd rhanddeiliaid hefyd yr angen i sicrhau hygyrchedd a dewis eang i bob dinesydd a defnyddiwr, yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd arunig a gwledig a phobl hŷn a phobl anabl. Cafwyd pryder penodol y dylai ein gwaith ar newid i ddigidol ystyried buddiannau grwpiau diamddiffyn.
- A.26 Gwnaeth randdeiliaid gydnabod hefyd bwysigrwydd llythrennedd y cyfryngau a sicrhau bod sgiliau llythrennedd y cyfryngau'n cael eu lledaenu'n eang. Awgrymwyd y dylai Ofcom gynnwys sefydliadau cyfryngau cymunedol yn ei waith ar lythrennedd y cyfryngau a darparu gwell eglurder am gwmpas yr hyn y bwriadwn ei wneud. Teimlwyd y dylai'r gwaith gynnwys nodi'r rhwystrau a all wynebu pobl anabl, yn enwedig y rheiny gydag anabledau dysgu.
- A.27 Nododd ICSTIS na chyfeiriwyd yn ddigonol at waith Ofcom gyda hwy ar Wasanaethau Cyfradd Breimiwm (PRS).
- A.28 **Sylwadau Ofcom:** *Ym mis Chwefror 2005, cyhoeddodd Ofcom ei ganllawiau drafft ar sut y byddwn yn cynnal Aseidiadau Effaith:*
http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/ia_guidelines/?a=87101. Mae'r canllawiau hyn yn sicrhau y bydd Ofcom yn ystyried ystod o opsiynau wrth lunio polisi, gan gynnwys effaith penderfyniadau polisi ar wahanol grwpiau o ddinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr dinasyddion oedrannus ac anabl. Cyhoeddir y canllawiau terfynol yn chwarter cyntaf 2005/6.
- A.29 *Yn fwy bras, rydym wedi penderfynu ymateb i bryderon ymatebwyr a fynegwyd yn glir yn y maes hwn trwy sefydlu tri llif gwaith penodol ar gyfer 2005/6. Byddant yn helpu tynnu ein gwaith presennol at ei gilydd, nodi unrhyw fylchau a sefydlu fframwaith clir ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Dyma'r tri maes gwaith hyn:*
- *Strategaeth defnyddwyr – prosiect newydd i ddiffinio ac i fynegi rôl Ofcom yn amddiffyn ac yn cefnogi defnyddwyr.*
 - *Mynediad i wasanaethau cyfathrebiadau – archwiliad ac adroddiad a fydd yn archwilio amrywiadau mewn mynediad i wasanaethau darlledu a telegyfathrebiadau, yn ôl rhanbarth a gwahanol categorïau o ddefnyddwyr.*
 - *Gwaith pellach ar fuddiant dinasyddion a'i oblygiadau i Ofcom – sut y dylid ei ddiffinio a'i ymgorffori i'n prosesau rheoleiddio.*
- A.30 Un cyfraniad pwysig i'r holl feysydd gwaith hyn fydd ein harchwiliad o gyfathrebiadau yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.
- A.31 *Yn ein datganiad ym mis Tachwedd nodwyd ein strategaethau a'n blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau. Byddwn yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau i roi llythrennedd y cyfryngau yn*

gadarn ar agenda ein rhanddeiliaid. Mae sefydliadau cyfryngau cymunedol yn sicr yn yr ystod o grwpiau yr hoffem gysylltu â hwy ac fe'u hanogir i gysylltu â thîm llythrennedd y cyfryngau. Wrth i'n dealltwriaeth o lefelau llythrennedd y cyfryngau yn y boblogaeth ddatblygu, rydym yn dechrau archwilio anghenion penodol gwahanol grwpiau yn y gymdeithas, gan gynnwys pobl ag anableddau.

A.32 *Disgrifir prif elfennau ein gwaith dan y thema hon yn adran 2. Yn adran 3 nodwn fanylion yr holl lifau gwaith perthnasol, gan gynnwys manylion o'n gwaith ar PRS a llythrennedd y cyfryngau.*

4. Ymrwymiad rhyngwladol

- A.33 Croesawodd rhanddeiliad ymrwymiad Ofcom i ymroi'n llawnach ar y lefel Ewropeaidd ac i helpu llywio a ffurfio'r agenda ddeddfwriaethol. Yn benodol, awgrymasant y byddai'n bwysig cynyddu ymrwymiad â'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) a Grŵp Rheoleiddwyr Ewrop (ERG).
- A.34 Roedd meysydd eraill a nodwyd gan rhanddeiliaid ar gyfer mwy o ffocws yn cynnwys:
- teledu pan-Ewropeaidd;
 - dadreoleiddio darlledu trawsffiniol; a
 - chynllun yr ITU ar gyfer darlledu digidol.
- A.35 Er bod rhanddeiliaid yn croesawu cynlluniau Ofcom i gynyddu ei ymrwymiad rhyngwladol, teimlasant y dylai gwell tryloywder ddod law yn llaw â hyn. Yn benodol, awgrymwyd y dylai Ofcom sefydlu fforwm rhanddeiliaid chwarterol i roi adborth ar ei waith rhyngwladol.
- A.36 **Sylwadau Ofcom:** *Bydd Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r holl grwpiau rhyngwladol perthnasol, gan gynnwys yr ERG a'r ITU. Yn wir, bydd Uwch Bartner Ofcom, Kip Meek yn cadeirio ERG yn 2006. Byddwn yn ceisio sicrhau bod datblygiadau rhyngwladol yn dryloyw i rhanddeiliaid a'n bod yn buddsoddi'r adnoddau angenrheidiol. Mae Ofcom hefyd yn bwriadu cysylltu â rhanddeiliaid ar faterion mwy rhyngwladol. Credwn fod manteision i'r fforwm chwarterol arfaethedig a byddwn yn ystyried sefydlu fforwm o'r fath, yn ogystal ag archwilio ffyrdd eraill y gallem wella adborth a thryloywder.*
- A.37 *Disgrifir elfennau allweddol ein gwaith dan y thema hon yn adran 2 ac yn adran 3 nodwn fanylion yr holl lifau gwaith perthnasol.*

5. Cymryd cyfleoedd i leihau rheoleiddio

- A.38 Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth i ymagwedd Ofcom at leihau rheoleiddio. Fodd bynnag, cafwyd pryderon fod maint y gwaith yn y cynllun yn awgrymu bod Ofcom yn fwy tebygol o gynyddu rheoleiddio yn hytrach na'i leihau. Hefyd, roedd rhai grwpiau rhanddeiliaid yn amharod i weld dadreoleiddio yn eu meysydd hwy a phryderwyd y gallai dadreoleiddio ffafrio deiliaid presennol. Awgrymwyd hefyd y dylai Ofcom sefydlu meincnod ar gyfer barnu llwyddiant gwaredu rheoleiddio. Cwestiynodd un rhanddeiliad yr angen am amddiffyniad defnyddwyr sectoraidd o ystyried y corff presennol o ddeddfwriaeth gyffredinol ar amddiffyn defnyddwyr.
- A.39 Ceisiodd un rhanddeiliad eglurhad ynghylch ein hegwyddorion rheoleiddio. Awgrymwyd na ddylai fod bias yn erbyn ymyrraeth *ex ante* ac y dylem geisio'r mecanwaith rheoleiddio mwyaf effeithiol yn hytrach na'r mecanwaith rheoleiddio sy'n ymyrryd leiaf. Awgrymwyd hefyd y dylem fod yn gliriach am y meini prawf a

ddefnyddir i benderfynu a ellir cyflwyno'r buddiant cyhoeddus yn gyfan gwbl gan farchnadoedd ac y dylem hefyd rhoi mwy o ystyriaeth i'n dyletswydd i hyrwyddo buddsoddiad.

- A.40 **Sylwadau Ofcom:** *Croesawn gefnogaeth i'n hegwyddorion rheoleiddio cyffredinol ac am ein cynlluniau lleihau costau parhaus. Fel a nodwyd uchod, bydd rhoi ein hadolygiadau strategol ar waith yn dod â symbyliad pellach i ddad-reoleiddio yn ystod 2005/6. Yn ogystal, bwriadwn archwilio ein hymagwedd reoleiddio yn ehangach yn ystod y flwyddyn a byddwn yn ystyried y materion hyn fel rhan o'r prosiect hwnnw. Byddwn hefyd yn parhau i archwilio cyfleoedd i waredu neu leihau rheoleiddio. Er enghraifft, disgwylir y bydd yr adolygiad fframwaith sbectrwm yn arwain at newid trwyddedau sbectrwm i ganiatáu mwy o fasnachu a defnydd mwy hyblyg a bydd ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn arwain at symud i ffwrdd o gwtâu genre-wrth-genre at ymagwedd newydd yn seiliedig ar "ddibenion a gwerthoedd".*
- A.41 *Disgrifir elfennau allweddol ein gwaith dan y thema hon yn adran 2 ac yn adran 3 nodwn fanylion yr holl lifau gwaith perthnasol.*

6. Gweithio'n effeithiol

- A.42 Cafwyd croeso cyffredinol i dryloywder Ofcom a'n parodrwydd i ymgynghori. Fodd bynnag, nodwyd meysydd ar gyfer gwelliant, a gwefan Ofcom yn benodol. Mynegwyd pryderon am faint yr ymgynghoriadau.
- A.43 Teimlodd rhai ymatebwyr fod angen i Ofcom wneud mwy o gynnydd wrth hyrwyddo amrywiaeth ethnig a diwylliannol. Awgrymwyd y dylai Ofcom gael strategaeth amrywiaeth wedi'i mynegi'n glir.
- A.44 **Sylwadau Ofcom:** *Mae Ofcom yn cydnabod yr angen i wella ei wefan ac mae'n ymroddedig i wneud hynny. O ran maint ymgynghoriadau Ofcom yn ein blwyddyn gyntaf, rydym yn cydnabod y bu hyn yn sylweddol, er bod y duedd chwarterol am i lawr bellach. Wrth baratoi ein cynigion ar gyfer 2005/6 buom yn ymwybodol o bryderon rhanddeiliaid a byddwn yn ceisio cyfleoedd i gysylltu materion â'i gilydd mewn dogfennau unigol yn hytrach nag ymgynghori ar wahân ar bob un.*
- A.45 *Mae Ofcom yn deall pwysigrwydd materion diwylliannol ac amrywiaeth ac rydym yn ymroddedig i roi amrywiaeth wrth wraidd ein gwaith. Bydd ein datganiad amrywiaeth newydd yn sail i'r ffordd y rheolwn ein gweithgareddau ein hunain ac i ystod o fentrau rhagweithiol.*
- A.46 *Disgrifir elfennau allweddol ein gwaith dan y thema hon yn adran 2. Yn adran 3 nodwn fanylion yr holl lifau gwaith perthnasol.*

7. Deall datblygiadau'r dyfodol

- A.47 Yn gyffredinol, croesawodd rhanddeiliaid gynlluniau Ofcom i ddadansoddi marchnadoedd sy'n esblygu mewn tri maes – sef ail genhedlaeth band eang, llwyfannau amlygfrwng digidol a sector cynhyrchu cynnwys y DG – er y cafwyd ychydig bryderon fod hyn yn arwydd o fwriad i ehangu ein gweithgareddau rheoleiddio.
- A.48 Tybiwyd bod amseru'r adolygiadau yn fater allweddol. Gofynnodd rhanddeiliaid i'r adolygiad ail genhedlaeth band eang gael ei gynnal cyn gynted â phosibl i sicrhau y gwneir penderfyniadau buddsoddi mewn amgylchedd rheoleiddio

sefydlog. Teimlwyd hefyd y dylid cynnal yr adolygiad cynhyrchu cynnwys mewn modd amserol ac y dylai gynnwys, ymhlith materion eraill, amrywiaeth cynhyrchu y tu hwnt i'r M25, defnyddio sbectrwm radio mewn perthynas â Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PSME) ac adolygiad o'r cwota cynhyrchu annibynnol presennol a chodau ymarfer darlledwyr.

- A.49 Denodd y llwyfannau amlgyfrwng digidol arfaethedig ystod o sylwadau ynghylch yr hyn y dylem ymdrin ag ef a'r hyn na ddylem ymdrin ag ef ac roedd rhanddeiliaid yn cefnogi ein nod o ysgogi dadl eang am fframwaith rheoleiddio'r dyfodol, gan gynnwys yr opsiwn o beidio ag ychwanegu at reoleiddio yn y maes hwn. Disgwyliwyd gan rai y byddai angen cynnal y gwaith hwn dros fwy o amser, gyda chyfleoedd am ddadlau helaeth.
- A.50 **Sylwadau Ofcom:** *Mae'r amserlen ar gyfer adolygiad ail genhedlaeth band eang yn ceisio cyflawni cydbwysedd rhwng y galw am adolygiad cyflym a'r angen am safbwynt tymor hwy. Gweler y calendr o allbynnau arfaethedig yn adran 5. Bydd sylwadau rhanddeiliaid ar gwmpas yr adolygiad cynhyrchu cynnwys yn cael eu hystyried gan y tîm prosiect wrth lunio'r cynllun manwl ar gyfer y gwaith hwn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr adolygiad yn archwilio materion fel y trefniadau presennol ar gyfer cynhyrchu cynnwys h.y. telerau masnach, cynnwys ar wahanol lwyfannau a hawliau cyfryngau newydd. Bydd hefyd adolygiad, sy'n edrych i'r dyfodol, o ffynonellau cyllid yn y sector darlledu.*
- A.51 *Bydd yr adolygiad o lwyfannau amlgyfrwng digidol yn eang yn angenrheidiol ac rydym yn ymroddedig i gynnal dadl gyhoeddus eang a chynhwysol.*
- A.52 *Disgrifir elfennau allweddol ein gwaith dan y thema hon yn adran 2 ac yn adran 3 nodwn fanylion yr holl lifau gwaith perthnasol.*

Cwestiwn 3: A oes meysydd/materion sydd heb eu cynnwys yn y Cynllun hwn y dylai Ofcom ystyried eu hychwanegu at ei flaenoriaethau?

Cwestiwn 4: A ydym wedi nodi'n gywir fuddiannau gwahanol grwpiau o randdeiliaid, ac effaith ein cynllun ar y grwpiau hynny?

- A.53 Roedd yr ymatebion i gwestiynau 3 a 4 yn gorgyffwrdd i raddau helaeth, felly mae'n synhwyrol delio â hwy gyda'i gilydd.
- A.54 Amlygodd rhanddeiliaid yr angen i ni gysylltu ein holl waith sy'n ymwneud â chynyddu dewis a hygyrchedd gwasanaethau sydd ar gael i ddinasyddion a defnyddwyr oedrannus ac anabl. Roedd yr angen i adlewyrchu buddiannau cwmnïau bach a chanolig (SMEs) yn ein gwaith yn bwynt a godwyd gan nifer o ymatebwyr ac rydym yn cydnabod bod SMEs yn grŵp cyfansoddol pwysig, gyda nifer fawr o ddefnyddwyr sbectrwm, yn benodol, yn y categori hwn.
- A.55 Fel y soniwyd gennym eisoes uchod, gofynnodd rhanddeiliaid hefyd i ni:
- fynegi'n gliriach sut yr ydym yn rhoi sylw i fuddiannau dinasyddion wrth wneud ein penderfyniadau;
 - adlewyrchu'n llawnach buddiannau'r Gwledydd a'r Rhanbarthau;
 - gwneud mwy i osod enghraifft mewn perthynas ag amrywiaeth.
- A.56 **Sylwadau Ofcom:** *Rydym wedi ymateb i hyn trwy benderfynu sefydlu prosiectau trosfwaol i adolygu a thynnu ein gwaith at ei gilydd sy'n canolbwyntio*

ar ddefnyddwyr a'r maes cysylltiedig o fynediad i wasanaethau ac offer cyfathrebiadau. Ceir manylion pellach yn adran 2 dan y thema "Rhoi sylw i faterion pwysig dinasyddion a defnyddwyr".

- A.57 *Bydd ein gwaith i adlewyrchu'n well buddiannau defnyddwyr ac SMEs yn ein penderfyniadau yn cynnwys dau adroddiad, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni, ar y Defnyddiwr Digidol a'r SME Digidol. Disgrifir y gwaith hwn yn adran 2 dan y thema "Gweithio'n effeithiol."*
- A.58 *Rydym wedi sôn eisoes uchod am y gwaith y bwriadwn ei wneud mewn cysylltiad â buddiannau dinasyddion, y Gwledydd a'r Rhanbarthau ac amrywiaeth.*

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'n lefel arfaethedig o adnoddau?

- A.59 *Roedd rhan fwyaf y rhanddeiliaid yn hapus iawn gyda'r gostyngiadau cost a gyflawnwyd hyd yma. Roedd sawl rhanddeiliad yn awyddus i Ofcom gyflawni gostyngiadau pellach yn ei gostau, tra bod eraill yn cwestiynu a oes gennym ddigon o adnoddau i roi'r sylw angenrheidiol i ymrwymiad rhyngwladol, amddiffyn defnyddwyr a materion o bryder i'r oedrannus a'r anabl.*
- A.60 **Sylwadau Ofcom:** *Mae Ofcom yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'n gostyngiadau cost gan ein bwriad yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol ac effeithlon sy'n rhoi gwerth am arian i'n rhanddeiliaid. Rydym wedi llwyddo i arbed costau trwy well effeithlonrwydd, gwell cynllunio a gwell ffyrdd o weithio felly disgwylw'n y byddwn yn gallu cwblhau'r rhaglen waith a ddisgrifir yn y cynllun hwn. Fel a soniwyd uchod, fodd bynnag, bydd y llifau gwaith newydd neu ddiwygiedig a gyflwynwyd gennym ar ôl yr ymgyngoriad yn golygu y bydd sawl un o'r llifau gwaith sy'n weddill yn cael eu rheoli dros amser ychydig yn hwy a bydd rhai yn parhau i 2007/8.*

Atodiad B

Enwau ymatebwyr

Ymatebodd yr unigolion a'r sefydliadau canlynol i'r ymgynghoriad ac roeddent yn fodlon i'w enwau gael eu cyhoeddi:

209 Radio
Y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl
Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain
BT
c9tv/North West Television Services
Cynhadledd Esgobiaid Pabyddol Cymru a Lloegr
Channel 4
Chelmsford Amateur Radio Society
Cyngor Cyfryngau'r Eglwysi
Yr Awdurdod Hedfan Sifil
CN Radio
Cymdeithas y Cyfryngau Cymunedol
Y Panel Defnyddwyr
Y Grŵp Cynghori Amrywiaeth Ddiwylliannol i'r Cyfryngau
Disability Action
Y Comisiwn Hawliau Anabledd
Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu
Ffederasiwn Busnesau Bach
Flextech Television/Telewest Broadband
GMG Radio Holdings
Hearing Concern
Hutchinson 3G UK Ltd
Ian Abel
Ian Greenwood
ICSTIS Ltd
Y Sefydliad Teledu Lleol
Intellect
Cymdeithas Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrywyd
ITV
Northern Visions
ntl group
O2 (UK) Limited
Orange
Pact
PSVratings
Public Voice
RNIB
S4C
Grŵp Darlledwyr Lloeren a Chebl
Scottish and Southern Energy
Sinn Fein
Y Blaid Lafur Gymdeithasol a Democraidd
Solent TV
Gwasanaeth Tân ac Achub Strathclyde
Consortium Panel Cyflenwyr (Technegol) sy'n cynnwys Mott MacDonald, ATDI, ESYS a Schema
Cymdeithas Delegyfathrebiadau Diwydiant Dŵr y DG
T-Mobile (UK) Ltd
Cymdeithas Telegyfathrebiadau Cystadleuol y DG
Cyngor Ffilm y DG
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae testun llawn pob ymateb (lle nad yw wedi'i farcio'n gyfrinachol) wedi'i roi ar wefan Ofcom.